


Urdd Gobaith Cymru

Rhestr Testunau

Eisteddfod yr Urdd Maldwyn

Mai 27 - Mehefin 1, 2024



urdd.cymru/eisteddfod



Eisteddfod yr Urdd



eisteddfodurdd



@eisteddfodurdd



@eisteddfodurdd

Rhestr Testunau

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru
Maldwyn
Mai 27 - Mehefin 1, 2024

Llio Elain Maddocks
Cyfarwyddwr y Celfyddydau

Adran yr Eisteddfod, Gwersyll yr Urdd, Glan-Ilyn,
Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7ST

Ffôn: 01678 541014

Ebost: lliomaddocks@urdd.org

Adran yr Eisteddfod

Gwersyll yr Urdd, Glan-Ilyn,
Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7ST

Ebost: eisteddfod@urdd.org

Mae'r Urdd yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth a chydweithrediad y partneriaid canlynol er mwyn cynnal cystadlaethau amrywiol: Colegau Cymru, Menter a Busnes, Prifysgol Abertawe, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Prifysgol Caerdydd, IntoFfilm, Mudiad Meithrin a Cyngor Llyfrau Cymru.



Urdd

Cynnwys

Gair o Groeso

Y Cywydd Croeso	4
Hynt Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru	6
Rheolau Cyffredinol	6
Beth ydy Eisteddfod?	7
Terminoleg	7
Enwau Swyddogol Canghennau'r Urdd	7
Polisi Iaith	7
Pwy sydd yn cael cystadlu?	7
Dysgwyr	8
Sut mae mynd ati i gystadlu?	8
Rheolau Eisteddfod	8
Gweithdrefnau a phrosesau	9
Hunan-ddewisiad a Hawlfraint	10
Sut i Gystadlu	11
Eisteddfod T	12
Dyddiadau i'w Cofio	13
Swyddogion Eisteddfod a Chwmni Urdd Gobaith Cymru	14
Cyfeiriadau Cyhoeddwy	15

Cystadlaethau Llwyfan a Maes

Cerddoriaeth Lleisiol	17
Canu Gwerin	22
Cerddoriaeth Offerynnol	24
Band/Artist unigol	28
Cerdd Dant	28
CogUrdd	32
Dawnsio Gwerin	32
Dawns	35
Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo	36
Llefaru	37
Siarad Cyhoeddus	39
Theatr	39
Trin Gwallt a Harddwch	43

Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu

Cynllunio Crys T	46
Cymeriad Cartŵn	46
Tudalen Gomic gyda Chymeriad(au)	46
Llun 2D	46
Gwaith Creadigol 2D	47
Graffeg Cyfrifiadurol	47
Ffotograff Wedi'i Addasu	48
Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn	48
Ffotograffiaeth: Llun Lliw	48
Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn	48

Clic!

Clicia ar unrhyw un o'r
adrannau yn y rhestr
cynnwys i fynd yn syth at
yr adran berthnasol.

Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw	49
Argraffu	49
Tecstilau Creadigol	49
Creu Tecstilau	50
Ffasiwn	50
Pypedau	50
Gwaith 3D	51
Uwchgylchu	51
Serameg	52
Gemwaith	52
Dylunio a Thechnoleg	52
Y Fedal Gelf, Dylunio a Thechnoleg	53
Ysgoloriaeth Artist Ifanc	53
Cyfansoddi Cerddoriaeth	54
Cyfansoddi Cerdd Dant	55
Cyfieithu	56
Darlunio Llyfr Stori-a-llun	56
Creu Ap	57
Creu Gwefan	57
Cynnwys Digidol	58
Adolygu Ffilm	58
Creu Ffilm	58
Gofal Plant	59
Prosiect Gwyddonol	59
Llenyddiaeth: Barddoniaeth	60
Llenyddiaeth: Rhyddiaith	61
Dysgwyr: Llenyddiaeth - Rhyddiaith	62
Dysgwyr: Medal y Dysgwyr	63
Dysgwyr: Medal Bobi Jones	64
Dysgwyr: Gwaith Llafar wedi'i Recordio	64
Cyst. Amgylcheddol Cymdeithas Edward Llwyd	65
Ysgoloriaeth Geraint George	65
Meithrin Talent - Talent Meithrin	66
Newyddiaduraeth	66
Cyfansoddi: Drama	67

Arall

Rhestr Tlysau a Gwobrau	68
Eithriadau Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth	72



Gair o Groeso

Wedi hir ymaros, mae trefniadau cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Maldwyn 2024 eisoes yn eu lle a hynny diolch i waith, ymroddiad ac amynedd cymaint o wirfoddolwyr lleol a chenedlaethol ar y cyd â staff yr Urdd. Mae'r lleoliad wedi ei bennu, y beirniaid wedi eu gwahodd, y testunau wedi eu trafod . . . Yr hyn sydd ei angen nesaf er mwyn sicrhau y bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Maldwyn 2024 yn 'Steddfod a hanner, ydi cystadleuwyr! Tybed os mai 2024 fydd dy flwyddyn fawr di fel cystadleuydd? Does ond un ffordd o ddod i wybod, sef drwy roi cynnig arni! Yn hynny o beth, mae'r cam cyntaf yn y gyfrol hon, sy'n cynnwys testunau ar gyfer pob cystadleuaeth. Yn sicr, mae rhywbeth at ddant pawb yng nghystadlaethau'r ŵyl arbennig hon a chyfleoedd euraidd i ddatblygu a meithrin doniau creadigol, perfformio a chyfansoddi ein plant a'n pobl ifanc. Hoffwn annog pob un o aelodau'r Urdd i ymarfer eu doniau, ym mha bynnag feysydd y bônt gan ddymuno'r gorau iddynt wrth fynd ati i greu a pharatoi. Yn anad dim, mawr obeithiaf y bydd ein hieuenctid yn mwynhau'r broses - boed hynny yn gymdeithasol wrth gyd-ymarfer â chyfoedion mewn cystadlaethau torfol neu wrth iddynt weithio'n unigol a chael boddhad wrth weld ffrwyth eu llafur yn datblygu.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn hefyd i ddiolch i'r hyfforddwyr a'r rhai hynny a fydd yn chwarae rhan mor flaenllaw yn annog ein plant a'n pobl ifanc i gystadlu drwy gyflwyno'r testunau ar lawr y dosbarth, yn y cartref ac yn gymdeithasol mewn clybiau ac Aelwydydd. Wrth gynnig y cyfleoedd hyn, rydych yn cynnig llawer mwy na chyfle i gystadlu - y mae'n gyfle i ddatblygu hyder ac yn fodd o greu atgofion gwerthfawr.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu'n gynnes i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Maldwyn 2024.

GWENNO MAIR DAVIES

Cadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod a'r Celfyddydau

Y Cywydd Croeso

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Maldwyn 2024

Mae haf yn Nyffryn Meifod
Heb ei well drwy Gymru'n bod.
Mae to iau am eich tywys
I gae, i wledd, ac i lys
Hud Madog ap Meredudd;
Hen do iau yn gloywi'n dydd.

Talia, Enya a Sonny
Yw lleisiau'n dydd newydd ni,
Ioan, Ifan a Daniel,
Libby, Betsi, Isabelle,
Ezmay, Castiel, Amelia;
Eu swyn hwy yw croeso'n ha'.

I fro'r Cain, i ferw cân
O flodau'r Ddyfi lydan,
O'r Waun Oer i Ferwyn at
Dresi aur tannau'r Tanat.
Bro'r 'Fyrnwy, Banwy uwch ben
Celfyddyd hyfryd Hafren.

Dewch yn llu, gyd-Gymry gwâr
I droedio ac i drydar
I Fathrafal, y galon
Yn y wlad lesmeiriol hon.
Trowch y sat-naf at afiaith
Meifod. Dod, a mwynhau'r daith!

ARWYN GROE

Hynt Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru

1929	Corwen
1930	Caernarfon
1931	Abertawe
1932	Machynlleth
1933	Caerffili
1934	Hen Golwyn
1935	Caerfyrddin
1936	Blaenau Ffestiniog
1937	Gwaun-cae-gurwen
1938	Aberystwyth
1939	Llanelli
1940	Y Rhyl
1941-5	<i>Bwlch yn ystod y Rhyfel</i>
1946	Corwen
1947	Treorci
1948	Llangefni
1949	Pontarddulais
1950	Wrecsam
1951	Abergwaun
1952	Machynlleth
1953	Maesteg
1954	Y Bala
1955	Abertridwr
1956	Caernarfon
1957	Rhydaman
1958	Yr Wyddgrug
1959	Llanbedr Pont Steffan
1960	Dolgellau
1961	Aberdâr
1962	Rhuthun
1963	Brynaman
1964	Porthmadog

1965	Caerdydd
1966	Caergybi
1967	Caerfyrddin
1968	Llanrwst
1969	Aberystwyth
1970	Llanidloes
1971	Abertawe
1972	Y Bala
1973	Pontypridd
1974	Y Rhyl
1975	Llanelli
1976	Porthaethwy
1977	Y Barri
1978	Llanelwedd
1979	Maesteg
1980	Abergele
1981	Castell Newydd Emlyn
1982	Pwllheli
1983	Aberafan
1984	Yr Wyddgrug
1985	Caerdydd
1986	Dyffryn Ogwen
1987	Merthyr Tudful
1988	Maldwyn
1989	Cwm Gwendraeth
1990	Dyffryn Nantlle ac Arfon
1991	Taf Elai
1992	Bro Glyndŵr
1993	Abertawe a Lliw
1994	Meirionnydd
1995	Bro'r Preseli
1996	Bro Maelor

1997	Islwyn
1998	Llŷn ac Eifionydd
1999	Llanbedr Pont Steffan a'r Fro
2000	Bro Conwy
2001	Gŵyl yr Urdd
2002	Caerdydd a'r Fro
2003	Tawe, Nedd ac Afan
2004	Ynys Môn
2005	Canolfan y Mileniwm
2006	Sir Ddinbych
2007	Sir Gâr
2008	Sir Conwy
2009	Bae Caerdydd
2010	Ceredigion
2011	Abertawe a'r Fro
2012	Eryri
2013	Sir Benfro
2014	Meirionnydd
2015	Caerffili a'r Cylch
2016	Sir y Fflint
2017	Penybont-ar-Ogwr, Taf ac Elái
2018	Brycheiniog a Maesyfed
2019	Caerdydd a'r Fro
2020	Eisteddfod T
2021	Eisteddfod T
2022	Sir Ddinbych
2023	Sir Gaerfyrddin
2024	Maldwyn
2025	Margam a'r Fro
2026	Ynys Môn

Rheolau Cyffredinol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Mae'r rheolau isod yn berthnasol i bob Eisteddfod gan gynnwys Eisteddfodau Cylch, Rhanbarth a'r Genedlaethol.

Beth ydy Eisteddfod?

Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, un o wyliau teithiol mwyaf Ewrop sy'n denu tua 90,000 o ymwelwyr ar draws chwe diwrnod yn cael ei chynnal bob blwyddyn yn ystod wythnos y Sulgwyn. Mae'n binacl tair blynedd o waith caled gan wirfoddolwyr o'r ardal leol ac mae'n cael ei ddarlledu yn helaeth yn y cyfryngau gan gynnwys y teledu, radio, y we a'r wasg leol a chenedlaethol.

Gŵyl gystadleuol yw'r Eisteddfod gyda thros 15,000 o blant a phobl ifanc o dan 25 oed yn cystadlu bob blwyddyn mewn cystadlaethau megis canu, dawnsio a pherfformio. Rhain yw'r buddugol o tua 40,000 o gystadlueuwyd ledled Cymru sydd wedi ennill eu lle yn y Genedlaethol yn dilyn Eisteddfodau Cylch a Rhanbarthol sydd yn cael eu cynnal yn ystod misoedd y gwanwyn cyn yr Eisteddfod.

Canolbwynt yr Eisteddfod yw'r cystadlu yn y tri Pafiliwn, ond yn amgylchynu'r Pafiliwnau mae cannoedd o stondinau lliwgar sydd yn cynnig ystod eang o weithgareddau ar gyfer y teulu cyfan – o ddringo a sesiynau chwaraeon i ffair, bandiau byw a sioeau plant gyda chymeriadau teledu. Yn ogystal â hyn, gallwch ymweld â'r Arddangosfa Gelf sydd yn gartref i'r holl gystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg yr Eisteddfod – tua 500 o ddarnau o waith!

Yn 2024 cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Maldwyn ac yn 2025 bydd yr Eisteddfod yn mynd ar daith i Fargam a'r Fro.

Gobeithio y gwelwn ni chi yno!

Terminoleg Eisteddfod yr Urdd

Rhanbarth – Eisteddfod Sir

Trefnydd – Gall fod yn Swyddog Cymunedol / Athro / Gwirfoddolwr

Torfol – Unrhyw gystadleuaeth sydd yn cynnwys 5 neu fwy o bobl.

Person â gofal – Rhiant / Gwarcheidwr / Athro / Hyfforddwr

Cydymffurfio â'r Rheolau

Wrth gofrestru ar-lein i gystadlu mae pob cystadlueuydd, hyfforddwr, person â gofal a chefnogwr yn ymrwymo i gydymffurfio gyda holl reolau cystadlu, amodau cyffredinol a chod ymddygiad yr Urdd. Tynnir sylw pob cystadlueuydd, hyfforddwr a person â gofal at Hysbysiad Preifatrwydd yr Urdd sydd i'w weld ar <http://www.urdd.cymru/cy/amdanom-ni/polisiau-urdd/cyfrinachedd>

Mae Urdd Gobaith Cymru yn disgwyl i gystadlueuwyd, hyfforddwyr a chefnogwyr ymrwymo i ysbyrd o chwarae teg yn holl weithgareddau'r Mudiad.

Enwau Swyddogol Canghennau'r Urdd

1 Adran Ysgol – Pob cangen sydd yn gweithredu o fewn Ysgol Gynradd, Ysgol Uwchradd, Ysgol Gyddol Oes neu Goleg.

2 Adran/Aelwyd – Cangennau Gymunedol o'r Urdd sy'n agored i holl aelodau'r mudiad, sy'n cwrdd y tu allan i oriau a threfniant Adran Ysgol, gyda rhaglen o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn.

3 Canghennau Perfformio/Arbenigol – Mae croeso i'r canghennau hyn gystadlu yn yr Eisteddfod yn y categorïau oedran perthnasol, ac eithrio cystadlaethau sy'n gyfyngedig i Ysgolion, Adrannau neu Aelwydydd. Am ragor o arweiniad, cysylltwch ag Adran yr Eisteddfod.

4 Cystadlu Tu Allan i Gymru – Gellir cystadlu tu allan i Gymru mewn Eisteddfod Rhanbarth arbennig. Rhaid dilyn y drefn gofrestru arferol.

Er mwyn cael yr hawl i gystadlu, mae'n rhaid i bob cangen gofrestru fel cangen o'r Urdd cyn dyddiad cau cystadlu eu rhanbarth. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch aelodaeth@urdd.org.

Polisi iaith

1 Cymraeg yw iaith yr Eisteddfod.

2 Cerddoriaeth Gefndir – Lle nodir bod modd defnyddio cerddoriaeth gefndir, caniateir defnyddio unrhyw gerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg, yn ddibynnol ar hawlfraint. Ewch i dudalen 10 am ragor o wybodaeth

Pwy sydd yn cael cystadlu?

1 Aelodau – Rhaid bod yn aelod o Urdd Gobaith Cymru er mwyn cofrestru i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Maldwyn. Gellir ymaelodi trwy ein gwefan: urdd.cymru/aelodaeth.

2 Hygyrchedd – Mae Eisteddfod yr Urdd yn ymrwymedig i ddarparu profiad a chyfleoedd cyfartal, ac i wneud pob ymdrech o fewn rheswm i wneud profiad o gystadlu yr un mor bleserus â phosibl i bawb.

3 Cyfyngiadau Cystadlu – Mae hawl gan bob aelod o'r Urdd gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch, os mai dyma ddymuniaid yr aelod.

4 Y Buddugol – Bydd y buddugol yn cynrychioli'r Rhanbarth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Pan nad yw hyn yn bosib, gall Adran yr Eisteddfod wahodd yr ail yn yr Eisteddfod Rhanbarth i gymryd eu lle.

Gall Adran yr Eisteddfod wahodd yr ail yn ogystal â'r cyntaf i gynrychioli'r Rhanbarth yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Hysbysir y cystadlueuwyd perthnasol yn fuan wedi cynnal yr Eisteddfod Rhanbarth olaf. Yn y Rhanbarth lle cynhelir yr Eisteddfod, bydd y cyntaf ac ail o bob cystadleuaeth yn cael eu gwahodd i gynrychioli'r Rhanbarth yn yr Eisteddfod Genedlaethol

5 Oedran Cystadlu – Rhaid i gystadlueuwyd fod o fewn yr oedran cystadlu ar 31 Awst wedi'r Eisteddfod yn 2024. Er enghraifft, mewn cystadleuaeth 14-25 oed, rhaid i ymgeiswyr fod wedi troi yn 14 oed, ond heb droi yn 25 oed. Gofynnir am ddyddiad geni pob cystadlueuydd cyn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Os oes amheuaeth ynglŷn ag oedran unrhyw gystadleuydd, bydd gan Drefnwyr yr Eisteddfod hawl i ofyn am weld tystysgrif geni'r aelod.

6 Cystadlu

i) Caniateir i unrhyw aelodau o'r Urdd gystadlu yn y Rhanbarth lle mae eu cartref, lle maent yn derbyn eu haddysg, neu mewn cangen lle maent yn derbyn hyfforddiant.

ii) Rhaid i bob aelod gystadlu mewn cystadlaethau unigol Llwyfan a Maes yn yr un gangen. Ni fydd modd cystadlu mewn mwy nag un Cylch / Rhanbarth ar gystadlaethau unigol.

iii) Rhaid i bob deuawd, triawd neu bedwarawd 19 – 25 oed gystadlu lle mae'r mwyafrif o aelodau yn byw neu yn derbyn eu haddysg. Lle nad oes mwyafrif, rhaid cysylltu gyda'r Adran Eisteddfod cyn cofrestru. Os o dan 19 oed, rhaid cysylltu gyda changen lle mae eu cartref, lle maent yn derbyn eu haddysg, neu mewn cangen lle maent yn derbyn hyfforddiant.

iv) Fe all aelod berthyn i fwy nag un gangen – Adran Ysgol ac Aelwyd er enghraifft. Caniateir i'r aelod gystadlu dros y naill gangen neu'r llall ar gystadlaethau gwahanol. Fodd bynnag mewn cystadlaethau Llwyfan a Maes rhaid dewis cystadlu fel unigolyn yn y naill gangen neu'r llall, ond mewn cystadlaethau torfol gall gysylltu â'r gangen a'i hyfforddwyd.

v) Ni chaniateir i unrhyw un ymgeisio dros fwy nag un gangen, na pherthyn i fwy nag un grŵp yn yr un gystadleuaeth.

7 Aelod Unigol - Caniateir i unrhyw aelod o'r Urdd gystadlu fel Aelod Unigol pan nad ydynt yn gysylltiedig â changen yn y Rhanbarth lle mae eu cartref, neu lle maent derbyn eu haddysg.

8 Nifer Cangen Ysgol - Yn y cystadlaethau lle mae cyfyngder nifer y disgyblion mewn cangen ysgol, dylid eu cyfrif o ddosbarth derbyn hyd at Flwyddyn 6 ar 31 Ionawr. Mewn ysgolion Gydol Oes, dylid cyfrif y disgyblion perthnasol hyd at Flwyddyn 6.

Dysgwyr

1 Ni ddylai aelodau lle mae un rhiant yn y cartref yn gallu'r Gymraeg gystadlu fel dysgwyr mewn cystadlaethau unigol

2 Caniateir aelodau sy'n symud o addysg cyfrwng Cymraeg i'r sector Saesneg gystadlu fel dysgwyr mewn cystadlaethau torfol yn unig.

Dysgwyr Cynradd - Dysgwyr yw aelodau nad ydynt wedi / yn dilyn rhaglen astudio Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen nac yng Nghyfnod Allweddol 2. Os ydynt yn hwyrdyfodiad di-Gymraeg mewn ysgol lle mae mwyafrif y disgyblion yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, caniateir iddynt gystadlu fel dysgwyr am eu tair blynedd gyntaf yn yr ysgol.

Dysgwyr Uwchradd - Dysgwyr yw'r aelodau hynny nad ydynt wedi / yn dilyn Rhaglen astudio Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen nac yng Nghyfnod Allweddol 2 na 3. Caniateir hwyrdyfodiad di-Gymraeg i gystadlu fel dysgwyr. Mae unigolyn sy'n cychwyn mewn ysgol Gymraeg swyddogol ym mlwyddyn 7 ar ôl dod o ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn gymwys i gystadlu fel dysgwr am eu 3 blynedd gyntaf yn yr ysgol.

3 Dilysrwydd - Wrth gofrestru cystadleuwyr, mae'r arweinydd yn gwarantu dilysrwydd pob cystadleuydd yng nghystadlaethau Adran y Dysgwyr.

4 Mae Rheolau Cyffredinol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yn ogystal â'r rheolau cystadlu a nodir ym mhob adran arall yn berthnasol hefyd i gystadlaethau'r Dysgwyr

Sut mae mynd ati i gystadlu?

1 Cofrestru i Gystadlu - Mae'n rhaid i bawb sy'n dymuno cystadlu gofrestru ar ein gwefan cyn y dyddiadau cau Cenedlaethol. Gweler 'Dyddiadau i'w Cofio', tudalen [13](#).

2 Cyfnod Gwario - Wedi'r dyddiad cau bydd cyfnod o dri diwrnod gwaith i aelodau wirio'r wybodaeth. Mae modd i rieni wirio cystadlaethau eu plant ar-lein, gan dynnu sylw'r gangen / ysgol / Urdd o unrhyw broblem.

3 Cofrestru Hwyr - Ar ôl i'r cyfnod gwario ddod i ben bydd y system yn cau ac ni fydd modd ychwanegu cystadleuwyr nac addasu gwybodaeth oni thelir ffi weinyddol. Gellir cofrestru'n hwyr drwy dalu'r ffi weinyddol hyd at 7 diwrnod cyn eu perfformiad cyntaf.

4 Rhestr Testunau - Rhaid i gystadleuwyr ddysgu'r gwaith a nodir yn y Rhestr Testunau, wrth ochr y gystadleuaeth, a bod yn barod i berfformio'r gwaith cyfan ar lwyfan Cylch / Rhanbarth a Chenedlaethol. Ni chaniateir i neb ddefnyddio copïau o eiriau a / neu gerddoriaeth mewn unrhyw fodd, ac eithrio yn yr adran offerynnol. Rhaid perfformio'r argraffiad a chyweirnod y darn prawf swyddogol fel y nodir yn y Rhestr Testunau. Nodir yn y Rhestr Testunau os oes dewis o gyweirnodau ar gyfer y darn swyddogol.

5 Eisteddfod Rhanbarth - Rhaid i bob cystadleuydd ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod Rhanbarth, oni nodir yn wahanol (ar dudalen 75). Ni chaniateir i unigolyn, parti na chôr gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, oni bai iddynt gael eu hanfon yno yn swyddogol o un o Eisteddfodau Rhanbarth yr Urdd.

6 Cysondeb - Rhaid i bawb sy'n cystadlu berfformio'r gwaith, ar hyd y daith o'r Eisteddfod Gylch i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a rhaid cadw at yr un cystadleuwyr trwy gydol y daith i'r Genedlaethol. Nid oes hawl newid cystadleuwyr rhwng y Cylch, Rhanbarth a'r Genedlaethol. Anogir pawb mewn cystadlaethau torfol i restru eilyddion er mwyn osgoi unrhyw anawsterau a all godi.

Rheolau Eisteddfod

1 Os bydd cystadleuydd yn torri un o Reolau Cyffredinol neu Reolau Adrannol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, yna ni fydd modd iddynt dderbyn gwobr.

2 Cydraddu - Ni dderbynnir cydradd fuddugol yn unrhyw safle, yn unrhyw gystadleuaeth yn yr Eisteddfodau Cylch, Rhanbarth na'r Genedlaethol. Os anfonir enwau cystadleuwyr cydradd buddugol at Adran yr Eisteddfod, ni dderbynnir yr un ohonynt. Yn yr un modd, nid oes modd rhannu gwobrau yn y cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu.

3 Rheol Amser Penodol - Ni chaniateir i unrhyw berfformiad fod dros yr amser a nodir. Os ydy'r cystadleuydd dros amser mewn Eisteddfod Gylch / Rhanbarth yna nodir hyn ar ei feirniadaeth a cheir gwybod ar lafar gan drefnydd yr Eisteddfod honno. Bydd yn rhaid addasu'r perfformiad erbyn yr Eisteddfod nesaf. Erbyn yr Eisteddfod Genedlaethol ni chaniateir i unrhyw berfformiad fod dros yr amser a nodir ac ni fydd modd derbyn gwobr os yw hyn yn digwydd.

Cofiwch, gall tempo perfformiad newid mewn perfformiad byw ar lwyfan mawr. Wrth baratoi rhaglen neu drac, gwnewch yn siwr fod (o leiaf) 10-30 eiliad sbâr ar y diwedd - rhag ofn!

Noder: Amseriad swyddogol Eisteddfod yr Urdd a ddefnyddir er mwyn penderfynu a yw cystadleuydd wedi mynd dros yr amser a ganiateir.

4 Ymateb Cyn Cystadlu - Dylai pob cystadleuydd fod yn barod i berfformio pan elwir arnynt. Os na fyddant yn cofrestru o fewn hanner awr i'w amser perfformio pan y'i gelwir, mae gan Adran yr Eisteddfod hawl i'w tynnu o'r gystadleuaeth.

5 Cyfeilyddion Swyddogol - Rhaid i'r Unawdwyr ac Ensemblau'r Sioe Gerdd (Cyst.159-161) a'r Unawdwyr Offerynnol ddarparu eu cyfeilyddion eu hunain.

Gweithdrefnau a phrosesau

1 Dyfarniad y Beirniad - Bydd dyfarniad y beirniad yn derfynol ym mhob achos oddi fewn i reolau a chanllawiau'r ŵyl. Dylid cyflwyno unrhyw apêl i sylw Trefnydd yr Eisteddfod neu i Swyddogion yr Urdd yn achos Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth, yn ysgrifenedig o fewn awr ar ôl dyfarniad unrhyw gystadleuaeth, ond gellir trafod y mater ar lafar yn ogystal. O dan amodau eithriadol, sefydlir Panel Apêl. Rhaid cael

rhysymau cadarn er mwyn cynnull Panel Apêl ac nid yw anghytuno â barn y beirniad yn sail ddigonol. Prif feirniad pob cystadleuaeth yw'r un a enwir yn gyntaf yn y Rhaglen. Bydd penderfyniad Cadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod a'r Celfyddydau a Chadeirydd yr Urdd yn derfynol ar faterion cystadleuol holl eisteddfodau Urdd Gobaith Cymru.

2 Beirniadaeth - Bydd beirniadaeth fer ar gael i bob cystadleuydd ar ôl i'r gystadleuaeth ymddangos ar y llwyfan. Ni ellir addo beirniadaeth ysgrifenedig i gystadleuwyr ar waith cyfansoddi. Cyhoeddir rhestr o'r buddugwyr ar ein gwefan ac ap, cyfrol o gyfansoddiadau llenyddol buddugol ac arddangosfa o fuddugwyr yr Adran Gelf, Dylunio a Thechnoleg. Darperir y feirniadaeth yn y Gymraeg yn unig ond gellir gwneud cais am feirniadaeth Saesneg wedi'r Eisteddfod.

3 Llwyfannu Cystadleuwyr - Bydd y buddugol ym mhob Rhanbarth yn cystadlu ar un o lwyfannau'r Eisteddfod Genedlaethol, boed yn bafiliwn, llwyfan allanol neu leoliad cystadlu arbennig.

4 Beirniad a Chyfeilyddion - Nid yw'r Beirniad i hyfforddi na chyfarwyddo unrhyw gystadleuydd yn yr adran y maent yn beirniadu ynddi rhwng 1 Medi a'r Eisteddfod. Nid yw'r Cyfeilydd i hyfforddi na chyfarwyddo unrhyw gystadleuydd yn y gystadleuaeth y mae'n cyfeilio ynddi rhwng 1 Medi a'r Eisteddfod. Ni ddylai Beirniad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd feirniadu mewn Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth, yn yr un adran y byddant yn beirniadu ynddi yn y Genedlaethol. Cedwir yr hawl gan y Cyfarwyddwr i wahodd Beirniad neu gyfeilydd ar y funud olaf er mwyn gallu cyflawni'r dasg yn yr Eisteddfodau Cylch, Rhanbarth a'r Genedlaethol. Y mae'n ddealladwy na fydd y Cyfeilyddion Swyddogol ar gael i gyfeilio mewn cystadlaethau eraill yn ystod yr Eisteddfod.

5 Gohirio Eisteddfod - Bydd gan yr Urdd hawl i gwtogi, gohirio neu beidio cynnal unrhyw Eisteddfod Gylch, Rhanbarth neu Genedlaethol oherwydd amgylchiadau arbennig. Gwna'r Urdd bob ymdrech i sicrhau y bydd holl drefniadau'r wyl yn effeithiol ond ni ellir dal yr Urdd yn gyfrifol am unrhyw golled a all ddigwydd yn sgîl gohirio unrhyw Eisteddfod.

6 Llwyfannu Cystadleuaeth - Mae'r Urdd yn cadw'r hawl i beidio â llwyfannu pob cystadleuaeth ar bryf llwyfannau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

7 Perfformiadau Cyhoeddus - Wrth gyflwyno ffurflen gofrestru mae'r person â gofal yn cydnabod fod holl Eisteddfodau'r Urdd yn ddigwyddiadau cyhoeddus a bydd aelodau yn ymddangos ar lwyfan cyhoeddus o flaen y cyhoedd sydd yn mynychu'r digwyddiadau. Cyhoeddir enwau cystadleuwyr ac enwau canghennau / ysgolion oddi ar lwyfan yr Eisteddfodau. Cyhoeddir enwau cystadleuwyr ac enwau canghennau / ysgolion mewn dogfennau gweinyddol mewnol yr Urdd. Yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, rhennir enwau'r cystadleuwyr ac enwau'r canghennau gyda'r wasg gan gynnwys cwmnïau teledu a radio. Mae posiblirwydd y bydd enwau a lluniau cystadleuwyr Eisteddfodau'r Urdd yn ymddangos yn gyhoeddus ar wefan yr Urdd (e.e. canlyniadau'r Eisteddfodau) ac ar blatfformau cyhoeddus eraill gan gynnwys ond heb gyfyngiad, papurau newydd, papurau bro, gwefannau ac ar gyfryngau cymdeithasol yr Urdd ac eraill. Darlledir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn fyw ar y teledu ac ar y radio a darlledir yn helaeth o'r Maes (gweler rheol 9). Cyfrifoldeb y person â gofal yw hysbysu'r Urdd o unrhyw achos dros beidio â datgelu gwybodaeth unrhyw aelod ar y teledu, y radio a'r we. Mae'r Urdd yn barod i gydymffurfio, cydweithio a hwylyso'r broses er mwyn sicrhau fod pob aelod o'r mudiad yn medru cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd yn unol â dymuniadau aelod.

Hawlfraint - Mae'n anghyfreithlon gwneud copïau ychwanegol o gerddoriaeth, barddoniaeth neu unrhyw waith sydd wedi'i gyhoeddi. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio ewch i dudalen 10. Wrth ddewis darn 'hunan-ddewisiad', y cystadleuydd sydd yn gyfrifol am sicrhau'r hawl gan y cyhoeddwy i berfformio darn o waith yn gyhoeddus, ac am sicrhau bod unrhyw gyfieithiad yn gyfieithiad swyddogol sydd wedi ei gofrestru a'i gymeradwyo gan y cyhoeddwr. Gofynnir am brawf bod yr hawliau hyn wedi eu rhoi.

Cyfrifoldeb y darlledwr yw sicrhau'r hawl i ddarlledu darn o waith. Gall yr Urdd ddarparu enghraifft o lythyr i'w anfon at y cyhoeddwr gyda geiriad addas, yn ogystal â manylion cyswllt yr amrywiol gyhoeddwy. Gall methu sicrhau'r hawl i berfformio olygu nad oes hawl gan gystadleuydd / gystadleuwyr i berfformio yn gyhoeddus mewn Eisteddfod. Lle defnyddir darn hawlfraint o fewn perfformiad a gyfansoddwyd yn wreiddiol (e.e. Cyflwyniad Digri / Cân Actol ayyb), cyfrifoldeb y cystadleuydd ydyw i sicrhau pob caniatâd priodol ar gyfer defnyddio'r darn. Rhaid i'r fath ganiatâd alluogi i'r Urdd, S4C ac / neu unrhyw drydydd parti, gyda chaniatâd y cyhoeddwr a/neu PRS, i wneud y perfformiad ar gael yn ddigifyngiad ac yn fyd-eang, drwy bob cyfrwng neu ddull dosbarthu (sy'n bodoli nawr neu a ddatblygir yn y dyfodol). Ceir gymorth ar glirio hawlfraint drwy ffonio Adran Gymraeg PRS ar 020 3741 4033 neu e-bostio: welshstvprogrammes@prsformusic.com. Nid oes angen caniatâd i ddefnyddio'r darnau sy'n ymddangos yn y Rhestr Testunau. Anogir pawb i ddewis caneuon na fydd yn creu trafferthion wrth eu darlledu. Dylid osgoi ambell gyfansoddwr/grŵp gan nad oes modd sicrhau hawlfraint darlledu'r gân. Am fwy o wybodaeth i 'Am ragor o wybodaeth.

8 Darlledu - Wrth gofrestru i gystadlu neu wrth fynychu Eisteddfod yr Urdd, mae'r aelod neu'r person â gofal yn cydnabod bod posiblirwydd y bydd eu llun neu eu perfformiad yn cael ei recordio a'i ddarlledu. Bydd gan yr Urdd hawl i'w defnyddio at ddibenion yr Urdd yn y dyfodol gan gynnwys darlledu ar S4C, ar-lein, ar ein Cyfryngau Cymdeithasol ac ar BBC Radio Cymru, a hynny heb geisio caniatâd pellach yr unigolyn na thalu unrhyw freindal neu daliad arall.

9 Cyhoeddi - Bydd gan yr Urdd hawl i gyhoeddi pob un neu rai o'r gwaith Cyfansoddi a Chreu a ddyfernir yn fuddugol ac i'w defnyddio at ddibenion yr Urdd yn y dyfodol, a hynny heb geisio caniatâd pellach yr awduron na thalu unrhyw freindal neu daliad arall.

10 Newidiadau i'r Rhestr Testunau - Bydd unrhyw newidiadau a wneir i'r Rhestr Testunau yn ymddangos ar wefan Eisteddfod yr Urdd: urdd.cymru/eisteddfod o dan y pennawd Rhestr Testunau / Newidiadau. Os oes unrhyw wahaniaeth yng nghyfieithiad y fersiwn Saesneg, y fersiwn Gymraeg fydd yn cael ei ddilyn.

11 Gwobrwyo - Rhoddir tystysgrif a medal yr Eisteddfod i'r cyntaf, ail a thrydydd ym mhob cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mewn cystadlaethau torfol, rhoddir un fedal yn unig ond mae modd prynu mwy o fedalau trwy'r Adran Eisteddfod.

12 Maint Llwyfan - Yn yr Eisteddfod Genedlaethol, maint y llwyfan Gwyrdd yw tua 10m x 8m, y llwyfan Gwyn tua 10m x 8m a'r llwyfan Coch tua 6m x 4m. Gall maint llwyfannau yn yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth fod yn wahanol a dylid addasu unrhyw berfformiad i'r gofod sydd ar gael.

13 Offerynnau - Ni chaniateir defnyddio eich drymiau eich hunain ar lwyfannau'r Eisteddfod Genedlaethol ac felly bydd yr Urdd yn darparu set o ddrymiau ym mhob lleoliad, a 3 tympan ar gyfer y cystadlaethau cerddorfaol yn unig. Ni fydd y ddarpariaeth hon ar gael yn yr Eisteddfodau Cylch / Rhanbarth lle bydd disgwyl i chi ddod â'ch offer eich hun. Os oes angen tympanau arnoch, rhaid gwneud cais i'r swyddfa erbyn Mawrth 1af.

14 Gweinyddu Eisteddfod - Cyfrifoldeb Pwyllgor Rhanbarth yw gweinyddu ei Eisteddfod Rhanbarth. Yn yr un modd, dirprwyir y cyfrifoldeb o weinyddu'r Eisteddfodau Cylch i'r Pwyllgorau Cylch. Mae rheolau cystadlu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn berthnasol i holl Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth yr Urdd. Mewn anghydfod, rhaid i'r swyddogion Cylch a Rhanbarth ymgynghori ag Adran yr Eisteddfod, cyn gwneud penderfyniad.

Hunan-ddewisiad a Hawlfraint

Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau pob caniatâd priodol ar gyfer cynnwys unrhyw ddarnau hunan-ddewisiad o fewn y perfformiad.


Dilyna y camau yma er mwyn sicrhau fod gen ti ganiatâd i ddefnyddio'r gwaith.

Gwybodaeth Bellach

Am ragor o fanylion a chymorth, cer i'r [wefan](mailto:wefan@urdd.org) neu e-bostia hawlfraint@urdd.org.

Ceir cymorth pellach ar glirio hawlfraint drwy gysylltu â Adran Gymraeg PRS for Music ar 020 3741 4033 neu e-bostio welshstvprogrammes@prsformusic.com

Mae gwneud copïau ychwanegol eich hun o gerddoriaeth sydd wedi ei chyhoeddi yn anghyfreithlon!



Sut i Gystadlu

Cystadlaethau Llwyfan a Maes

- 1 Pora drwy'r Rhestr Testunau a dewis pa gystadleuaeth/gystadlaethau yr hoffet gystadlu ynddi/ynddynt.
- 2 Sicrha fod pawb sy'n cystadlu yn aelod o'r Urdd am y tymor 2023/2024 mewn da bryd yn ystod tymor yr Hydref. Ceir rhagor o fanylion ar sut i ymaelodi ar ein gwefan.
- 3 Bydd angen cofrestru i gystadlu ym mhob cystadleuaeth cyn y dyddiad cau, Chwefror y 5ed 2023, heblaw am yr eithriadau ar [dudalen 72](#) lle bydd angen cofrestru erbyn Mawrth 1af 2023.
- 4 Bydd pawb sydd yn cofrestru yn cael eu gwahodd i gystadlu yn eu heisteddfod Cylch neu Rhanbarth.
- 5 Bydd rhai cystadlaethau Llwyfan a Maes yn hepgor yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth, ac yn ymddangos yn syth yn y Genedlaethol. Ceir rhestr o'r cystadlaethau hyn ar [dudalen 72](#) y Rhestr Testunau.
- 6 Ceir rheolau penodol ar gyfer pob adran yn y Rhestr Testunau hwn.

Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu

- 1 Pora drwy'r Rhestr Testunau a dewis pa gystadleuaeth/gystadlaethau yr hoffet gystadlu ynddi/ynddynt.
- 2 Sicrha fod pawb sy'n cystadlu yn aelod o'r Urdd am y tymor 2023/2024 mewn da bryd yn ystod tymor yr Hydref. Ceir rhagor o fanylion ar sut i ymaelodi ar ein gwefan
- 3 Dylai'r holl waith cyfansoddi gael ei lanlwytho wrth gofrestru, erbyn 1 Mawrth 2024. Dylai gwaith Celf, Dylunio a Thechnoleg fod wedi ei gofrestru erbyn 23ain Ebrill, 2024.
- 4 Ceir rheolau penodol ar gyfer pob adran yn y Rhestr Testunau hwn.

EISTEDDFOD



Dyma i ti Rhestr Cystadlaethau T

Anifail Anwes Talentog
Oes gan dy anifail anwes di sgiliau arbennig?

Fideo Tiktok
Defnyddia dy ddychymyg i greu fideo difyr. Cofia beidio defnyddio cerddoriaeth boblogaidd Saesneg oherwydd hawlfraint

Cais Orau

Gornest y Gacen
Pa mor greadigol wyt ti'n gallu bod?

Bwletin Newyddion/Tywydd Doniol

Arbrawf Gwyddoniaeth Gwallgo

Dynwarediad

Diwrnod ym mywyd Mr Urdd


Lipsyncio
Meimia i unrhyw gân Gymraeg

Band Cegin

Garddio Gwyrdd

Creu Bwgan Brain

Dyddiad cau:
1af o Fawrth



urdd.cymru/eisteddfod

 [Eisteddfod yr Urdd](https://www.facebook.com/Eisteddfod-yr-Urdd)

 [eisteddfodurdd](https://twitter.com/eisteddfodurdd)

 [@eisteddfodurdd](https://www.instagram.com/eisteddfodurdd)

 [@eisteddfodurdd](https://www.tiktok.com/@eisteddfodurdd)

Dyddiadau i'w Cofio

24 Hydref 2023	Dyddiad cau: Cofrestru CogUrdd
22 Ionawr 2024	Dyddiad cau: Dawns ac Offerynnol
31 Ionawr 2024	Y dyddiad olaf i gyfrif y disgyblion mewn ysgol
5 Chwefror 2024	Dyddiad cau holl gystadlaethau Llwyfan a Maes, heblaw'r eithriadau ar dudalen 72. Rhaid cofrestru pob cystadleuydd erbyn y dyddiad cau. (Cyfnod gwiro: 6-8 Chwefror 2024)
1 Mawrth 2024	Dyddiad cau: - Holl gynnyrch Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu, heblaw'r eithriadau ar dudalen 72. - Cystadlaethau Eisteddfod T - ar gyfer trefnu cyfeilydd i'r Unawd 19-25. - ar gyfer trefnu tympanau.
Mawrth 2024	Eisteddfod 'tu allan i Gymru'.
23 Ebrill 2024	Dyddiad Cau: Cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg.
Mai 2024	Beirniadu Celf, Dylunio a Thechnoleg Cenedlaethol
27 Mai - 1 Mehefin 2024	Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn 2024
14 Mehefin 2024	Y dyddiad olaf y bydd Adran yr Eisteddfod yn derbyn cais am ddychwelyd cynnyrch yr adrannau Cyfansoddi a Chreu
31 Awst 2024	Rhaid i ymgeiswyr fod o fewn yr oedran priodol i gystadlu ar y dyddiad hwn.

Swyddogion Eisteddfod a Chwmni Urdd Gobaith Cymru

Swyddogion Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru

Tîm Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau

Cyfarwyddwr	Llio Maddocks
Trefnydd Technegol Eisteddfod yr Urdd	Lowri Morris
Trefnydd Celfyddydol Eisteddfod yr Urdd	Bethan Walkling
Trefnyddion Cynorthwyol	Gethin Page Owain ap Myrddin Sian Williams
Rheolwr Nawdd a Phartneriaethau	Nannon Evans
Tîm Gweinyddol	Nesta Jones Lois Wynne Jones
Swyddog Marchnata Digidol	Lois Eckley
Trefnydd Cwmni Theatr Ieuenctid	Branwen Davies
Rheolwr Maes	Sarah Cole

Tîm Adran Gyfathrebu a Datblygu

Cyfarwyddwr	Mali Thomas
Rheolwr Cyhoeddiadau a Chyfathrebu	Branwen Dafydd
Swyddog Marchnata a Chyfathrebu	Ceri Williams
Swyddog Marchnata Digidol	Mared Elin Jones

Bwrdd yr Eisteddfod a'r Celfyddydau

Cadeirydd	Gwenno Mair Davies
Celf, Dylunio a Thechnoleg	Gwyneth Davies
Cerdd Dant	Eirian M. Jones
Cerddoriaeth	Patric Stephens
Dawns	Eleri Jones
Llefaru	Elin Williams
Llenyddiaeth	Hywel Griffiths
Theatr	Peter Davies
Dysgwyr	Lona Evans

Aelodau eraill

Arwel Gruffydd, Alun Saunders, Aled Rhys, Bedwyr Fychan, Carwyn Hawkins, Carys Edwards, Dai Baker, Dyfan Phillips, Elen Rhys, Elan Roach, Gwenno Mair Davies, Helen Williams, Patric Stephens, Peter Davies, Rhian Haf

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Maldwyn 2024

Swyddogion Eisteddfod Maldwyn 2024

Llywyddion Anrhydeddus	Delma Thomas Ann Fychan Menna Wyn Blake Hywel Glyn Jones Heulwen Davies Carys ac Emyr Evans
Llywyddion y Dydd	Sian James Linda Griffiths Aeron Pughe Steffan Harri Guto Rhun Elen Rhys
Gwobr Cyfraniad Oes i'r Urdd	Arwyn Tyisa

Swyddogion Pwyllgor Gwaith 2024

Cadeirydd	Bedwyr Fychan
Is-gadeirydd	Nia Chapman
Ysgrifennydd	Rhian Davies
Cadeirydd Pwyllgor Cyllid	Beryl Vaughan
Ysgrifennydd Pwyllgor Cyllid	Hywel Glyn Jones

Swyddogion Cwmni Urdd Gobaith Cymru

Prif Weithredwr	Sian Lewis
Cadeirydd Cyngor yr Urdd	W. Dyfrig Davies
Cadeirydd Bwrdd yr Eisteddfod a'r Celfyddydau	Gwenno Mair Davies
Trysorydd y Bwrdd Busnes	Abigail Sara
Llywyddion Anrhydeddus	Wynne Melville Jones Siôn Edwards Rhiannon Lewis
Ymddiriedolwyr	Carol Davies W. Dyfrig Davies Tudur Dylan Jones Gwyn Morris Meriel Parry Dilwyn Price Jim O'Rourke Mari Emlyn Aled Walters Nia Hâf Siwan Dafydd Gareth Parry Gwenno Davies Nia Bennett

ABRSM

4 London Wall Place,
London, EC2Y 5AU
020 7636 5400
abrsn.org
abrsn@abrsn.ac.uk

Atebol

Adeiladau'r Fagwyr
Llandre, Aberystwyth
01970 832172
atebol.com

Barddas

Bethany Celyn
barddas.cymru
bethany@barddas.cymru

Cyhoeddiadau Curiad

Uned 6 a 9 Capel Salem, Ffordd Bryncelyn,
Talsarn, Caernarfon LL54 6AB
01286 882166
curiad.co.uk
curiad@curiad.co.uk

Cwmni Cyhoeddi Gwynn

Canolfan Sain, Llandwrog, Caernarfon,
Gwynedd, LL54 5TG
01286 831111
gwynn.co.uk
gwynn@gwynn.co.uk

Cyhoeddiadau Sain

Canolfan Sain, Llandwrog, Caernarfon,
Gwynedd LL54 5TG
01286 831111
sainwales.com
sain@sainwales.com

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Copiau ar gael drwy eich siop lyfrau lleol.
Os oes anhawster, cysylltwch â Rhidian
Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr,
Aberystwyth SY23 2HX
rhcgiffiths@btinternet.com

Cymdeithas Cerdd Dant Cymru

John Eifion Jones a Marina Bryn Jones
Tyddyn Arthur, Y Waun, Penisarwaun,
Caernarfon, LL55 3PN
01286 872488 / cerdd-dant.org
cerdd.dant.cymru@gmail.com

Cymdeithas Ddawns Werin Cymru

Palas Print, 10 Palace Street, Caernarfon,
Gwynedd LL55 1RR
01286 674631

Faber

01279 828988
fabermusicstore.com
support@fabermusic.com

Gwasg y Bwthyn

Tŷ Cadnant, Parth 2, Lôn Hen Felin,
Cibyn, Caernarfon LL55 2BD
01286 672018
gwasgybwthyn@btconnect.com

Gwasg Carreg Gwalch

12 Iard yr Orsaf, Llanrwst,
Conwy LL26 0EH
01492 642031
carreg-gwalch.cymru
llanrwst@carreg-gwalch.cymru

Gwasg Gee

Isfryn, Llanllechid, Bethesda,
Gwynedd, LL57 3LB
07765 400140
gwasggee@gmail.com

Gwasg Gwynedd

Hafryn Llwyn Hudol, Pwllheli,
Gwynedd, LL53 5YE
01758 612483
cyhoeddi@gwasggwynedd.com

Hal Leonard

020 7395 0382
halleonard.com
sales@halleonardeurope.co.uk

Novello

Chester Music and Novello & Co,
14-15 Berners Street, London, W1T 3LJ
020 7612 7400
musicsalesclassical.com
promotion@musicsales.co.uk

Oxford University Press

Great Clarendon Street, Oxford, OX2 6DP
01536 452657
www.oup.com
onlinequeries.uk@oup.com

Shawnee Press

+1 800-962-8584
www.shawneepress.com
info@shawneepress.com

Snell a'i Feibion

68 West Cross Lane, West Cross,
Abertawe, SA3 5LU
01792 405727

Urdd Gobaith Cymru

Adran yr Eisteddfod, Gwersyll yr Urdd,
Glan-Ilyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7ST
01678 541014
urdd.cymru
eisteddfod@urdd.org

Y Lolfa

Talybont, Ceredigion SY24 5AP
01970 832304
ylolfa.com
ylolfa@ylolfa.com

Cystadlaethau Llwyfan a Maes

Cerddoriaeth Lleisiol.....	17
Canu Gwerin	22
Cerddoriaeth Offerynnol	24
Band/Artist unigol	28
Cerdd Dant	28
CogUrdd	32
Dawnsio Gwerin.....	32
Dawns	35
Dawnsio Hip-Hop/Stryd/Disgo.....	36
Llefaru.....	37
Siarad Cyhoeddus.....	39
Theatr	39
Trin Gwallt a Harddwch	43

Clic!

Gallwch glicio ar unrhyw
un o'r adrannau yn y rhestr
cynnwys i fynd yn syth at
yr adran berthnasol.

Cerddoriaeth: Lleisiol



1	Unawd BI.2 ac iau	‘Breuddwydio’, Gilmor Griffiths <i>Hwyl ar y Gân, Y Lolfa</i> Cenir Pennill 1 a 2 yn unig.
2	Unawd BI.3 a 4	‘Helfa’r Hydref’, Leah Owen <i>Codi’r To, Cyhoeddiadau Curiad</i>
3	Unawd BI.5 a 6	‘Dy Enw Di’, Ruth Lloyd Owen <i>Byddwch Lawen, Cyhoeddiadau Sain</i>
4	Deuawd BI.6 ac iau	‘Ffrindiau Sy’n Werth Y Byd’, Leah Owen <i>Codi’r To, Cyhoeddiadau Curiad</i>
5	Parti BI.6 ac iau (Ad) Dim mwy na 12 mewn nifer	‘Pam?’, Leah Owen <i>Codi’r To, Cyhoeddiadau Curiad</i> Caniateir dewis nodau yn y barrau olaf
6	Parti Unsain BI.6 ac iau (D) Dim mwy na 12 mewn nifer	‘Bai ar Gam’, Robat Arwyn <i>Cymru ar Gân, Cyhoeddiadau Curiad</i> Ni ddylid canu rhan yr alto dewisol sydd yn y gytgan
7	Côr BI.6 ac iau (Ad) 11–25 mewn nifer	‘Cymru’r Plant’, Hector Macdonald <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - clicia yma</i>
8	Parti Unsain BI.6 ac iau (YC) Ysgolion â hyd at 50 o blant Dim mwy na 12 mewn nifer	‘Now a Ned’, Leah Owen <i>Ffrindiau, Cyhoeddiadau Curiad</i> Trefn y gerddoriaeth: Rhag / Cyt1 / Pen1 / Cyt2 / Pen2 / Cyt3
9	Parti Unsain BI.6 ac iau (YC) Ysgolion â dros 50 o blant rhwng 4–11 oed Dim mwy na 12 mewn nifer	‘Codi’r To’, Leah Owen <i>Codi’r To, Cyhoeddiadau Curiad</i>
10	Côr BI.6 ac iau (YC) Ysgolion â hyd at 150 o blant rhwng 4–11 oed 11–25 mewn nifer	‘Amser Gwely’, Robat Arwyn <i>Taro Deuddeg, Gwasg Y Bwthyn</i>
11	Côr BI.6 ac iau (YC) Ysgolion â dros 150 o blant rhwng 4–11 oed 20–40 mewn nifer	‘Cydiwn Ddwyllo’, J. Eirian Jones <i>Cynghanedd Cariad, Y Lolfa</i>

12	Côr Bl.6 ac iau (D) 20-40 mewn nifer	'Cân y Cawr', Caryl Parry Jones (tr. Geraint Cynan) <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - clicia yma</i>
13	Parti Deulais Bl.6 ac iau (YC/Ad) 12-16 mewn nifer	'Ein Byd sy'n Llawn Llawenydd', Eric Jones <i>Ffordd Tangnefedd, Curiad (1055)</i>
14	Ensemble Lleisiol Bl.6 ac iau (YC/Ad) 3-8 mewn nifer Digyfeiliant	Hunan-ddewisiad Un darn digyfeiliant, trillais neu fwy i'w ganu yn y Gymraeg. Dim hwy na 3 munud. Caniateir dyblu lleisiau. Ni chaniateir arweinydd.
15	Unawd Merched Bl.7, 8 a 9	'Y Baban Mair', ('Madonna and Child') Eric H. Thiman <i>Warner Chappell Music</i> <i>Geiriau Cymraeg: Aled Lloyd Davies</i> <i>Geiriau Cymraeg ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - clicia yma</i> Cywair: F fwyaf (E ↗ F') 30703 Cywair: D fwyaf (C ↗ D') 30685
16	Unawd Bechgyn Bl.7, 8 a 9	'Âf i Draw Gyda 'Nhad i Aredig' ('I will go with my father a-ploughing'), John Jeffreys <i>Roberton Publications [75317 a 1071]</i> <i>Geiriau Cymraeg: Beryl Steeden Jones</i> <i>Geiriau Cymraeg ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - clicia yma</i> Cywair: F fwyaf (C ↗ E ^b ') 75317 Cywair: G fwyaf (D ↗ F [#] ') 01071 Cywair: E ^b fwyaf (B ^b ↗ D ^b ') <i>Copi E^b ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn.</i> Mae hon yn gystadleuaeth ar gyfer lleisiau trebl yn ogystal â lleisiau sydd wedi torri.
17	Deuawd Bl.7, 8 a 9	'Clychau', Caryl Parry Jones (tr. Geraint Cynan) <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - clicia yma</i>

18 Unawd S/A Bl.10 a dan 19 oed

Naill ai:

'Ti Ydyw Hedd', ('*Du Bist die Ruh*'), Franz Schubert

The Art of Song (Gradd 8), Peters

Geiriau Cymraeg: T.H. Parry Williams

Geiriau Cymraeg ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)

Llais Uchel EP71771 - Cywair: E^b fwyaf (E^b ↗ A^b)

Llais Canol EP71772 - Cywair: C fwyaf (C ↗ F')

Llais Isel EP71773 - Cywair: B^b fwyaf (B^b ↗ E^b)

neu:

19 Unawd T/B Bl.10 a dan 19 oed

'Twymyn y Môr', ('*Sea Fever*'), John Ireland

Stainer & Bell

Geiriau Cymraeg: Dyfnallt Morgan

Geiriau Cymraeg ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)

Cywair: E leiaf (B ↗ D') H218

Cywair: F leiaf (C ↗ E^b) 1498

Cywair: G leiaf (D ↗ F') 1499

Cywair: A leiaf (E ↗ G') 1500

Rhaid canu'r un gân o'r Eisteddfod Gylch i'r Genedlaethol.

(yr un yw'r darnau prawf ar gyfer cystadlaethau 18 ac 19)

Cyflwynir Ysgoloriaeth Mrs Olwen Phillips a rhodd Capel Cymraeg

Melbourne, Awstralia i'r unawdydd mwyaf addawol rhwng

Bl.10 ac 19 oed (cystadlaethau 18-19).

20 Deuawd Bl.10 a dan 19 oed

'Cofion', ('*Gruss*'), Mendelssohn

Cyhoeddiadau Gwynn (2008)

Geiriau Cymraeg: John Eilian

21 Unawd 19–25 oed

Un gân o'r rhestr isod gan Francesco Paolo Tosti:

- 'Eilun' ('*Ideale*')
Cywair: F fwyaf (C ↗ D') neu A fwyaf (E ↗ F#')

'Fy Serenâd' ('*La Serenata*')
Cywair: E^b fwyaf (D ↗ E^b') neu F fwyaf (E ↗ F')

'Meddwl a wnaf' ('*Penso*')
Cywair: C leiaf (B^b, ↗ E^b') neu E leiaf (D# ↗ G#')

'Tristwch' ('*Tristezza*'), Francesco
Cywair: D leiaf (D ↗ D') neu F leiaf (F ↗ F')

Francesco Paulo Tosti: 30 Songs (High Voice)
(HL50484320)

Francesco Paulo Tosti: 30 Songs (Low Voice)
(HL50484321)

Hal Leonard

Geiriau Cymraeg: John Stoddart ac Emyr Davies
Geiriau Cymraeg ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)

Rhaid canu'r un gân o'r Eisteddfod Gylch i'r Genedlaethol.

Rhaid i bob Unawdydd drefnu Cyfeilydd naill ai trwy ddarparu cyfeilydd eich hun neu drwy gysylltu â Swyddfa'r Urdd erbyn Mawrth 1af (gweler Rheol Lleisiol 8).
Nid yw'r gystadleuaeth hon yn ymddangos yn yr Eisteddfod Gylch na Rhanbarth, ond mae'n rhaid cofrestru i gystadlu cyn y 1af o Fawrth.

22 Parti Deusain Bl.9 ac iau (Ad)
Dim mwy na 16 mewn nifer

'Galw Nôl', Rhyddan Meilir Pughe ac Ann Fychan (tr. Caradog Williams)
Tŷ Cerdd
Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir.

23 Côr Bl.9 ac iau (Ad)
17–30 mewn nifer

'Mae'r Dyfodol yn Ein Dwylo Ni', Penri Roberts, Derec Williams a Linda Gittins
Cyhoeddiadau Sain
Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir.

24 Parti Merched Bl.7, 8 a 9
12–16 mewn nifer

'Pennant Melangell', Nansi Richards (tr. Geraint Cynan)
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)
Caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas, yn ychwanegol i'r cyfeiliant piano. Fodd bynnag y perfformiad lleisiol a feirnedir.

25 Parti Bechgyn Bl.7, 8 a 9
12–16 mewn nifer

'Yma o Hyd', Dafydd Iwan (tr. Patric Stephens)
Cyhoeddiadau Sain
137	Llefaru Unigol Bl.3 a 4 (D)	‘Cadw-mi-gei’, Tudur Dylan Jones <i>Byd Llawn Hud, Gwasg Gomer / Y Lolfa</i>
138	Llefaru Unigol Bl.5 a 6 (D)	‘Siopa’, Sali Ann Preston <i>Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn - clicia yma</i>
139	Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau (D) 6–12 mewn nifer	‘Roli a’r Troli’, Dyfan Roberts <i>Odl a Chodl, Y Lolfa</i>
140	Llefaru Unigol Bl.7, 8 a 9 (D)	‘Cais i’r Prifathro’, Elen Howells <i>Cerddi Poeth ac Oer, Y Lolfa</i>
141	Grŵp Llefaru Bl.7, 8 a 9 (D) 6–12 mewn nifer	‘Becso am y bocsys’, Menna Elfyn <i>Odl a Chodl, Y Lolfa</i>
142	Llefaru Unigol Bl.10 a dan 19 oed (D)	‘Traws Cambria’, Steve Eaves <i>Cerddi Poeth ac Oer, Y Lolfa</i>
143	Grŵp Llefaru Bl.10 a dan 19 oed (D) 6–12 mewn nifer	‘Cwm Alltcafau’, T Llew Jones <i>Trysorfa T Llew Jones, Gwasg Gomer</i>

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Llefaru

- 1

Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2

Bydd y pwyslais ar y llefaru ac ar gyflwyno naws ac ystyr y cerddi/darnau o ryddiaith. Gellir arbrofi, os dymunir, yn ôl gweledigaeth yr hyfforddwr e.e. gellir defnyddio symud, rhannu, gwisgoedd, cerddoriaeth neu effeithiau eraill. Awgrymiadau'n unig yw'r rhestr uchod.
- 3

Caniateir defnyddio cerddoriaeth ond ni ddylid ychwanegu geiriau. Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau hawlfraint unrhyw gerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler tudalen [10](#).
- 4

Ni chaniateir gorddefnydd o iaith arall.
- 5

Yng nghystadlaethau'r Adran Llefaru, lle bo'r darn prawf wedi ei ysgrifennu mewn tafodiaith gref, caniateir rhai mân newidiadau i ynganiad geiriau er mwyn i'r darn swnio'n naturiol i'r glust yn nhafodiaith y cystadleuydd. Dylid, fodd bynnag, sicrhau bod yr addasiad yn gynnil ac angenrheidiol. Ni ddylai unrhyw addasiadau, er mwyn bod yn driw i waith y llenor/bardd, effeithio ar fydr ac odl cerdd na newid ystyr y darn prawf mewn unrhyw fodd. Lle bo'r darn mewn cynghanedd, ni chaniateir unrhyw newidiadau.
- 6

Mae'r nifer a nodir mewn grŵp yn cyfeirio at y nifer sydd yn llefaru. Caniateir aelodau ychwanegol ar gyfer cyfeiliant offerynnol yn unig. Yn y cystadlaethau i ysgolion uwchradd ac Aelwydydd, rhaid i bawb sydd yn ymddangos yn y gystadleuaeth fod o fewn yr oedran priodol. Yn y cystadlaethau sy'n benodol ar gyfer Adrannau (heb fod yn Adran Ysgol) neu ar gyfer aelodau o fewn oedran cynradd, caniateir i un cyfeilydd fod dros oedran y gystadleuaeth.
- 7

Rhaid i gystadleuwyr ddefnyddio'r argraffiad a nodir yn y Rhestr Testunau hwn. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol mewn unrhyw gystadleuaeth oni nodir yn wahanol.
- 8

Rhaid dechrau'r perfformiad â gofod chwarae gwag. Ni chaniateir gosod offer, set na phropiau cyn i'r cystadleuwyr ddod i'r llwyfan. Ni chaniateir gadael offer ar y llwyfan ar ddiwedd y perfformiad.
- Beirniaid Rhian Iorwerth, Osian Maelgwyn Jones, Elen Rhys, Lowri Steffan, Elin Williams

Beirniaid Llefaru Dysgwyr Andrea Parry, Elin Williams

Siarad Cyhoeddus

144 Tîm Siarad Cyhoeddus Bl.10 a dan 19 oed (YU)

145 Tîm Siarad Cyhoeddus 14-25 oed (Ae)

Dyddiad cau
cofrestru:
1af o Fawrth

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Siarad Cyhoeddus

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

2 Rhaid cofrestru timau Siarad Cyhoeddus erbyn 1 Mawrth

3 Wedi traddodi beirniadaeth ar lafar i bob tîm ar ôl eu perfformiad prawf Rhanbarthol, ni pharatoir beirniadaeth ysgrifenedig wedyn. Anfonir nodiadau bras at y timau a ddewisir i'r profion terfynol.

4 Wedi gweld yr holl dimau, bydd y beirniad yn dewis y timau gorau o blith y timau Ysgolion Uwchradd, a'r gorau o blith y timau Aelwydydd. Bydd y timau hyn yn ymddangos yn y profion terfynol yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd. Hysbysir pob tîm, llwyddiannus ac aflwyddiannus, tua chanol Ebrill.
- 5 Rhaid i'r timau a ddewisir i'r profion terfynol gystadlu ar y dyddiad ac yn y drefn a benderfynir gan Drefnydd yr Eisteddfod.

6 Sylwer mai tîm Ysgol a thîm Aelwyd sydd i gystadlu. Yr Ysgol/Aelwyd yw'r uned, ac ni chaniateir benthycu perfformwyr o Ysgolion/Aelwydydd eraill. Caniateir 4 aelod mewn tîm.
- Beirniad Rhun ap Iorwerth

Dyddiad cau
cofrestru:
5ed o Chwefror

Theatr

146 Perfformiad Theatrïg o Sgrïpt Bl.6 ac iau
2-4 mewn nifer

Detholiad o 'Brenin y Treinyrs', Pryderi Gwyn Jones
Brenin y Treinyrs, Gwasg Carreg Gwalch
Detholiad ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - [clicia yma](#)

Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.

147 Perfformiad Theatrïg Bl.6 ac iau
Dim llai na 10 mewn nifer

Thema: Trwy dy Lygaid di
Rhngw 5 a 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.
Dim llai na 10 mewn nifer

148 Cân Actol Bl.6 ac iau (YC/Ad)
Ysgolion â hyd at 100 o blant rhwng 4-11 oed
Dim mwy na 40 mewn nifer

Does unman yn debyg i adref
Cyflwyniad na chymer fwy na 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.

149	Cân Actol Bl.6 ac iau (YC) Ysgolion â thros 100 o blant rhwng 4-11 oed Dim mwy na 40 mewn nifer	Thema: Fel hyn da ni fod Cyflwyniad na chymer fwy na 10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.
150	Perfformiad Theatrïg Unigol Bl.7, 8 a 9	Perfformiad o un ai: a) Monolog o ddrama, llyfr Cymraeg neu sgript wreddiol NEU b) Cân - cân bop, gwerin neu o sioe gerdd Dim hwy na 3 munud Y perfformiad yw'r elfen bwysig, sef cyfleu y stori a'r cymeriad, nid cywirdeb l'r copi bob tro. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.
151	Perfformiad Theatrïg o Sgript Bl.7, 8 a 9 2-4 mewn nifer	'Mis yr Yd', Manon Steffan Ros, <i>CAA Cymru / Atebol</i> <i>Detholiad ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - clicia yma</i> Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.
152	Perfformiad Theatrïg o Olygfa Bl.7, 8 a 9 5-10 mewn nifer	Perfformio golygfa o un o'r nofelau isod: (a) 'Gwylliaid', Bethan Gwanas <i>Gwasg Gomer / Y Lolfa</i> (b) 'Gwennol', Sonia Edwards <i>CAA Cymru / Atebol</i> (c) 'Academi Mr Dwm', Jon Gower <i>CAA Cymru / Atebol</i> Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.
153	Perfformiad Theatrïg i Grŵp Bl.7, 8 a 9 Dim llai na 10 mewn nifer	(a) Cân: 'Trwy dy lygid di', Yws Gwynedd (b) Thema: Ffenestri Os yn defnyddio cerddoriaeth, rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i berfformio. Rhwyng 5-10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.
154	Perfformiad Theatrïg o Sgript Bl.10 a dan 19 oed 2-4 mewn nifer	Hunan-ddewisiad Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu. Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.
155	Perfformiad Theatrïg i Grŵp Bl.10 a dan 19 oed Dim llai na 10 mewn nifer	(a) Cân: 'Gwaed ar eu dwylo', Plethyn (b) Thema: Enfys Os yn defnyddio cerddoriaeth, rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i berfformio. Rhwyng 5-10 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.

156	Detholiad o Ddrama Gerdd Bl.7 a dan 25 oed Dim llai na 10 mewn nifer	Unrhyw waith gan Gwmni Theatr Maldwyn / Hunanddewisiad Dim hwy na 15 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.
157	Stand Yp 14-25 oed	Hunan-ddewisiad Cyflwyniad o waith comedi gwreiddiol gan unigolyn heb fod yn hwy na 4 munud.
158	Perfformiad Theatrïg Unigol Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Cyflwyno monolog na chymer fwy na 5 munud i'w berfformio. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.
159	Perfformiad Theatrïg Unigol 19-25 oed	Hunan-ddewisiad Perfformio 2 fonolog cyferbyniol. Dim hwy na 8 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.
160	Perfformiad Theatrïg Unigol o Gân o Sioe Gerdd Bl.10 a dan 19 oed	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 5 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.
161	Perfformiad Theatrïg Unigol o Gân o Sioe Gerdd 19-25 oed	Hunan-ddewisiad Dim hwy na 5 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.
162	Perfformiad Theatrïg o Ensemble o Sioe Gerdd Bl.10 a dan 25 oed 2-6 mewn nifer	Hunan-ddewisiad Perfformiad o olygfa neu gân o sioe gerdd. Dim hwy na 5 munud. Rhaid sicrhau hawlfraint cyn cofrestru i gystadlu.
163	Perfformiad Theatrïg o Sgript Bl.6 ac iau (D) 2-4 mewn nifer	'Sw Sara Mai a Lleidr y Neidr, Casia Wiliam <i>Y Lolfa</i> <i>Detholiad ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - clicia yma</i> Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Theatr

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Rhaid dechrau'r perfformiad â gofod chwarae gwag. Ni chaniateir gosod offer cyn i'r cystadleuwyr ddod i'r llwyfan. Ni chaniateir gadael offer ar y llwyfan ar ddiwedd y perfformiad. Diffinnir prop a set fel eitem neu offer y gall un cystadleuydd ei gario i ac o'r llwyfan.
- 3 Amserir y perfformiad o'r sain neu'r ystum cyntaf nes bo'r cystadleuwyr wedi gadael y llwyfan. Gweler Rheol Amser (3) [tudalen 8](#)

- 4 Bydd 5 meicroffon ar lwyfan y Genedlaethol a bydd yn bosibl defnyddio hyd at 4 meicroffon radio (ac eithio'r gystadleuaeth Perfformiad Theatrïg o Ensemble o Sioe Gerdd lle caniateir hyd at 6 meicroffon radio).
- 5 Ni chaniateir i unrhyw gystadleuydd berfformio unrhyw ddarn y maent wedi'i berfformio eisoes yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd dros y tair blynedd diwethaf.
- 6 Caniateir aelodau ychwanegol ar gyfer cyfeiliant yn unig. Nid oes rhaid i'r cyfeilyddion fod o fewn oedran y gystadleuaeth.

CANLLAWIAU YCHWANEGOL - tudalen 42

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Theatr (parhad)

Canllawiau Ychwanegol

- 7 Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw sicrhau pob caniatâd priodol ar gyfer cynnwys unrhyw ddarnau hunan-ddewisiad, cerddoriaeth ar drac neu gerddoriaeth a chwaraeir yn fyw, sydd wedi ei gyhoeddi yn fasnachol, o fewn y perfformiad. Anogir cystadleuwyr i ddefnyddio cerddoriaeth wreiddiol. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler [tudalen 10](#).
- 8 Ni chaniateir gorddefnydd o iaith arall.
- 9 **Perfformiad Theatr o Sgript**
Cyflwyniad gan 2-4 mewn nifer o sgript osodedig neu sgript hunan-ddewisiad yn ddibynnol ar y gystadleuaeth o dan sylw. Dylid sicrhau bod hyd perfformio y sgript hunan-ddewisiad yn ddim mwy na 5 munud. Mae hawl gan yr hyfforddwr i newid ac addasu acen. Caniateir newid rhyw'r cymeriad os yw hynny yn gwneud synnwyr ac yn gydnaws â'r sgript. Caniateir gwisgoedd, propiau a set syml. Gweler Rheol Amser (3) [tudalen 8](#).
- 10 **Cân Actol - Bl.6 a iau**
Disgwylir cyflwyniad o'r thema â'r pwyslais ar ganu ac actio. Dylai'r gerddoriaeth lifo drwy'r perfformiad cyfan. Gall y geiriau a'r alawon fod yn wreiddiol, wedi eu cyhoeddi neu'n gyfuniad o'r ddau. Rhaid sicrhau hawlfraint os yn defnyddio cerddoriaeth a gyhoeddwyd yn fasnachol. Caniateir gwisgoedd, offer a set syml.
- 11 **Perfformiad Theatr i Grŵp - Bl.6 a iau**
Perfformiad o sgript ar thema osodedig gan grŵp. Disgwylir cyflwyniad o'r thema â'r pwyslais ar yr elfen ddramatig. Caniateir defnyddio gwaith megis darnau o ddrama yn ogystal â gwaith gwreiddiol. Caniateir y defnydd o gerddoriaeth gefndirol i ychwanegu at yr awyrgylch yn unig ond dylid pwysleisio nad hwn yw'r elfen bwysicaf o'r gystadleuaeth. Caniateir gwisgoedd, offer a set syml.
- 12 **Perfformiad Theatr Unigol. Bl.7, 8 a 9**
Gall unigolyn berfformio monolog neu gân o hyd at dri munud mewn hyd .
Gall y fonolog ddod o lyfr Cymraeg gwreiddiol neu ddrama Gymraeg neu fod yn wreiddiol.
Caniateir mân offer llwyfan a gwisg briodol ar gyfer y perfformiad.
Pan yn perfformio cân yn arbennig, yr elfen bwysicaf yw cyfleu y stori / cymeriad yn y perfformiad, nid cywirdeb technegol i'r copi. Gall y gân fod yn gân bop Gymraeg, gwerin Gymraeg neu gân o sioe gerdd.
Caniateir cyfeiliant.
Rhaid cael hawlfraint unrhyw gerddoriaeth neu rhyddiaeth a ddefnyddir.
- 13 **Perfformiad Theatr o olygfa Bl.7, 8 a 9**
Hyd - 5 munud
Rhwyng 5-10 mewn nifer.
Rhaid dewis golygfa / digwyddiad o un o'r nofelau gosod.
Rhaid i holl gynnwys y perfformiad ddeillio o'r nofel.
Gallwch gyflwyno yr olygfa yn defnyddio unrhyw dechnegau/ arddulliau theatrig.
Nid yw'r gystadleuaeth yn gofyn am berfformio y stori gyfan.
- e.e. Gallwch rannu y naratif rhwng yr holl grŵp, defnyddio corws, defnyddio tableaux, symudiadau, pypedau, neu unrhyw beth fydd yn creu perfformiad ac adloniant i'r gynulleidfa.
Caniateir defnyddio mân offer, gwisgoedd a cherddoriaeth.
Rhaid cael hawlfraint unrhyw gerddoriaeth a ddefnyddir.
- 14 **Perfformiad Theatr i Grŵp Bl.7 8, a 9 a Bl.10 a dan 19**
Hyd - rhwng 5 a 10 munud.
Dim llai na 10 mewn nifer.
Dehongliad theatrig o un o'r ysgogiadau gosod.
Gall fod yn gerddoriaeth i gyd, yn lefaru i gyd, neu'n gyfuniad o'r ddau.
Gall y perfformiad gynnwys deunydd gwbl wreiddiol neu ddeunydd gan awduron neu gyfansodwyr eraill.
Caniateir mân offer a gwisg.
Rhaid cael hawlfraint unrhyw ddeunydd a ddefnyddir.
- 15 **Perfformiad Theatr Unigol o Gân o Sioe Gerdd**
Cyfrifoldeb yr unadwydd yw sicrhau hawlfraint perfformio gan y cwmni cyhoeddi perthansol. Disgwylir i'r sawl sy'n cystadlu uwchlwytho tystiolaeth o'r hawlfraint / caniatâd wrth gofrestru.
- 16 **Perfformiad Theatr Unigol Bl.10 a dan 19 oed a 19-25 oed**
Cyflwyniad(au) o ddrama, darn o ryddiaith sydd wedi ei(u) cyhoeddi neu waith gwreiddiol addas. Caniateir gwisgoedd ac offer syml ar gyfer y perfformiad.
- 17 **Perfformiad Theatr o Ensemble o Sioe Gerdd Bl.10 a dan 25 oed**
Perfformiad hyd at 5 munud gan 2 neu hyd at 6 aelod o gân neu olygfa o Sioe Gerdd. Rhaid i bob aelod gynrychioli cymeriad unigol yn ystod y cyflwyniad. Oherwydd rhesymau hawlfraint bydd angen gwirio gyda'r cyhoeddwr os am ddefnyddio gwisgoedd ac offer sydd yn efelychu cynhyrchiadau llwyfan. Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu cyfeilydd ei hun. Gellir defnyddio band neu gerddoriaeth wedi recordio ymlaen llaw, ond cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau hawlfraint.
- 18 **Stand-yp**
Cyflwyniad o waith comedi gwreiddiol gan unigolyn heb fod yn hwy na 4 munud. Cynhelir y gystadleuaeth ar Llwyfan y Maes, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar y prynhawn Sadwrn olaf. Nid oes rhaid cyflwyno sgript o flaen llaw ond rhaid i'r cynnwys fod yn weddus ac nid yn enllibus.
- 19 **Detholiad o Drama Gerdd**
Nid oes rhaid cyflwyno'r stori yn gyflawn a gellid canu rhannau o ganeuon ond dylid ceisio sicrhau bod y cyflwyniad yn llifo i greu cyfanrwyd. Caniateir gwisgoedd, offer a set syml. Gellir defnyddio band neu gerddoriaeth wedi ei recordio ymlaen llaw. Cyfrifoldeb y grŵp yw sicrhau hawlfraint perfformio. Am ragor o fanylion ac am ganllawiau ar sut i sicrhau caniatâd perfformio gweler [tudalen 10](#).

Beirniaid

Wyn Jones, Betsan Llwyd, Lynwen Haf Roberts, Penri Roberts, Alun Saunders, Branwen Haf Williams, Mared Williams, Meilir Rhys Williams

164	Cân Actol Bl.6 ac iau (D) 8-40 mewn nifer	Thema: Chwedlau Lleiafswm o 8 a dim mwy na 40 mewn nifer Cyflwyniad na chymer fwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.
165	Perfformaid Theatrïg o Sgript Bl.7, 8 a 9 (D) 2-4 mewn nifer	‘Hedyn, Caryl Lewis <i>Y Lolfa</i> <i>Detholiad ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-Ilyn - clicia yma</i> Dim hwy na 5 munud gan gynnwys amser i osod a chlirio llwyfan.

Trin Gwallt a Harddwch

166	Lefel 1 / Mynediad Trin Gwallt Bl.10 a dan 25 oed	Cymeriadau Ffuglennol
167	Lefel 1 / Mynediad Harddwch Bl.10 a dan 25 oed	Cymeriadau Ffuglennol
168	Lefel 2 Trin Gwallt Bl.10 a dan 25 oed	Cymeriadau Ffuglennol
169	Lefel 2 Harddwch Bl.10 a dan 25 oed	Cymeriadau Ffuglennol
170	Lefel 3 Trin Gwallt Bl.10 a dan 25 oed	Cymeriadau Ffuglennol
171	Lefel 3 Harddwch Bl.10 a dan 25 oed	Cymeriadau Ffuglennol

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Trin Gwallt a Harddwch

Trefn y gystadleuaeth

- 1 Trefnir rownd Rhanbarthol cyn diwedd mis **Ebrill 2024** os oes angen.
- 2 Cynhelir y rownd derfynol yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd mewn lleoliad ar y maes.

Rheolau Cystadlu

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Cyfrifoldeb y cystadleuydd yw darparu offer a model eu hunain er mwyn cwblhau'r dasg ymhob rownd.
- 3 Darperir un soced drydanol ar gyfer bob cystadleuydd ymhob rownd.
- 4 Darperir bwrdd a chadair ar gyfer pob cystadleuydd ymhob rownd.
- 5 Ceir hyd at 90 munud i gwblhau'r dasg.

Trin Gwallt

Lefel 1 / Mynediad, Lefel 2 a Lefel 3

Creu delwedd gyflawn yn seiliedig ar y thema. Bydd gan bob cystadleuydd 90 munud i gwblhau'r dasg sy'n cynnwys gosod a chlirio. Caiff y gwaith coluro, gwisg ac ategolion ei gwblhau o flaen llaw gan y cystadleuydd yn unig. Mae rhwydd hynt i'r cystadleuwyr ddewis eu cyfarpar a'u cynnyrch eu hun ar gyfer y dasg. Caniateir i'r cystadleuydd baratoi hyd at 30% o'r gwallt / ategolion gwallt o flaen llaw.

Harddwch

Lefel 1 / Mynediad, Lefel 2 a Lefel 3

Celf ewinedd a cholur yn seiliedig ar y thema. Caniateir 90 munud i gwblhau'r dasg sy'n cynnwys gosod a chlirio. Bydd angen canolbwyntio ar yr olwg derfynol ond bydd y beirniaid yn ystyried y gwallt a'r wisg. Caniateir i'r cystadleuydd baratoi'r wisg a'r gwallt o flaen llaw.

Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu

ADRAN CELF, DYLUNIO A THECHNOLEG

Cynllunio Crys T.....	46
Cymeriad Cartŵn.....	46
Tudalen Gomic gyda Chymeriad(au).....	46
Llun 2D.....	47
Gwaith Creadigol 2D.....	47
Graffeg Cyfrifiadurol.....	47
Ffotograff Wedi'i Addasu.....	48
Ffotograffiaeth: Llun Du a Gwyn.....	48
Ffotograffiaeth: Llun Lliw.....	48
Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn.....	48
Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw.....	49
Argraffu.....	49
Tecstilau Creadigol.....	49
Creu Tecstilau.....	50
Ffasiwn.....	50
Pypedau.....	50
Gwaith 3D.....	51
Uwchgylchu.....	51
Serameg.....	52
Gemwaith.....	53
Dylunio a Thechnoleg.....	52
Y Fedal Gelf, Dylunio a Thechnoleg.....	53
Ysgoloriaeth Artist Ifanc.....	53

ADRAN CYFANSODDI

Cyfansoddi Cerddoriaeth.....	54
Cyfansoddi Cerdd Dant.....	55
Cyfieithu.....	56
Darlunio Llyfr Stori-a-llun.....	56
Creu Ap.....	57
Creu Gwefan.....	57
Cynnwys Digidol.....	58

Adolygu Ffilm.....	58
Creu Ffilm.....	58
Gofal Plant.....	59
Prosiect Gwyddonol.....	59
Llenyddiaeth: Barddoniaeth.....	60
Llenyddiaeth: Rhyddiaith.....	61

ADRAN Y DYSGWYR

Dysgwyr: Llenyddiaeth - Rhyddiaith.....	62
Dysgwyr: Medal y Dysgwyr.....	63
Dysgwyr: Medal Bobi Jones.....	64
Dysgwyr: Gwaith Llafar wedi'i Recordio.....	64
Cyst. Amgylcheddol Cymdeithas Edward Llwyd.....	65
Ysgoloriaeth Geraint George.....	65
Meithrin Talent - Talent Meithrin.....	66
Newyddiaduraeth.....	66
Cyfansoddi: Drama.....	67

Clic!

Clicia ar unrhyw un o'r
adrannau yn y rhestr
cynnwys i fynd yn syth at
yr adran berthnasol.

Rheolau Celf, Dylunio a Thechnoleg

Terminoleg yr Adran

Celf Dylunio a Thechnoleg = CDT

Anghenion Dysgu Ychwanegol = ADY

Gwaith Grŵp = Gwaith gan 2 aelod neu fwy

- 1 **Rheolau Cyffredinol** - Mae'r Rheolau Cyffredinol sydd ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 **Cystadlu** - Rhaid i bob darn o waith yn yr Adran CDT fynd drwy rowndiau Cylch / Rhanbarth. Bydd y gwaith a gaiff y wobwr gyntaf ymhob cystadleuaeth yn yr adran Gynradd, ac y cyntaf a'r ail o'r adran Uwchradd ac Aelwydydd o bob Rhanbarth yn mynd ymlaen i rownd feirniadu'r Genedlaethol.
 - a) **Medal CDT** - Dyfennir y Fedal CDT i'r cystadleuydd sydd wedi cyflwyno gwaith mwyaf addawol o blith holl gynnyrch Bl.10 a dan 19 oed sy'n cyrraedd y Rownd Feirniadu Genedlaethol.
 - b) **Ysgoloriaeth yr Artist Ifanc Bl.10 a dan 25 oed** - Gwahoddir holl gystadleuwyr Ysgoloriaeth yr Artist Ifanc i Rownd Feirniadu Genedlaethol arbennig gan **hepgor** ymddangos mewn rownd feirniadu Cylch / Rhanbarth.
- 3 **Dyddiad Beirniadu Rhanbarth** - Trefnir dyddiad y beirniadu Rhanbarthol cyn canol Mai. Cysylltwch â'ch trefnydd lleol i gadarnhau'r dyddiad.
- 4 **Cofrestru** - Cofrestru erbyn **23 o Ebrill 2024**. Bydd angen Labeli pob darn o waith, gan ddefnyddio'r label a ddarperir wrth gofrestru
- 5 **Cynnyrch** - Rhaid i'r holl ddarnau a gyflwynir fod yn waith gwreiddiol a grëwyd gan y cystadleuydd/wyr.
- 6 **Nifer** - Ni chaniateir i gystadleuwyr ymgeisio fwy na

unwaith ymhob cystadleuaeth o fewn yr un adran ac eithrio'r gystadleuaeth Darlunio Llyfr Stori-a-llun (gweler [tudalen 56](#)).

7 Maint - Maint pob eitem

- a **Gwaith 2D**: Dim mwy 760mm x 560mm
- b **Gwaith 3D**: Dim mwy na 750mm x 750mm x 750mm
- c **Gwaith Cerameg/Crochenwaith**: Dim mwy na 400mm x 400mm x 400mm

8 Diffiniad Gwaith 3D

- Gwrthrych sy'n weledol o bob cyfeiriad ac sy'n cynnal ei hun.

9 Pwysau

- Ni all unrhyw eitem Gwaith 3D bwyso mwy na 12kg ac eithrio gwaith Ysgoloriaeth yr Artist yr Ifanc Bl.10 a dan 25 oed

10 Mowntio

- Er mwyn diogelu'r gwaith, caniateir mowntio ar bapur neu garden os oes angen. Ni chaniateir defnyddio 'mownt ffenestr' na ffrâm ar gyfer gwaith 2D ac eithrio lle mae ffrâm yn angenrheidiol ar gyfer strwythur y gwaith. Caiff y gwaith buddugol ei fowntio'n broffesiynol ar gyfer yr arddangosfa.

11 Anghenion Dysgu Ychwanegol

- Diffinnir 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' (ADY) yn unol â rheolau'r Awdurdod Addysg Leol.

12 Cyhoeddi

- Bydd gan yr Urdd yr hawl i ddefnyddio neu gyhoeddi delweddau y cynnyrch a ddyfennir yn fuddugol yn yr adran CDT yn y dyfodol heb geisio caniatâd yr artist.

13 Colled neu ddifrod

- Cymerir pob gofal o'r cynhyrchion ond ni fydd yr Urdd yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod anorfod a all ddigwydd o safbwynt cludo gwaith i'r Beirniadu Cenedlaethol ac i/o Faes yr Eisteddfod. Os oes gwerth mawr i'r cynhyrchion neu os yw'r cynhyrchion yn fregus, mae croeso i gystadleuwyr wneud trefniadau eu hunain i gludo'r gwaith.

Thema : Egni
Ceir syniadau i ddehongli'r thema
[yma](#)

ADRAN CELF, DYLUNIO A THECHNOLEG

Cynllunio Crys-T

Cynllunio Crys-T (blaen ar A4, cefn ar A4, a'i gyflwyno ar darn A3) i gyfleu unrhyw agwedd neu agweddau o'r thema Egni. Gallwch lawrlwytho templed o grys T gwag [yma](#).

172	Cynllunio Crys-T Bl.2 ac iau	Egni
173	Cynllunio Crys-T Bl.3 a 4	Egni
174	Cynllunio Crys-T Bl.5 a 6	Egni
175	Cynllunio Crys-T Bl.7, 8 a 9	Egni

Cymeriad Cartŵn

Dyfeisio cymeriad cartŵn newydd gan dynnu llun o'r cymeriad ac ysgrifennu darn amdano heb fod yn hwy na 150 gair.

176	Cymeriad Cartŵn Bl.6 ac iau	Agored
-----	-----------------------------	--------

Tudalen Gomig gyda Chymeriad(au)

Cyflwyno tudalen gomig gyda chymeriad(au) sy'n ffitio oddi-mewn i dudalen dim mwy na A3.

177	Tudalen Gomig Bl.7, 8 a 9	Agored
178	Tudalen Gomig Bl.10 a dan 19 oed	Agored

Llun 2D

Creu llun gan ddefnyddio un neu gyfuniad o'r cyfryngau yma: Pensil, Inc, Creon, Pastel neu Baent i fesur dim mwy na 760mm x 560mm.

179	Lluniadu 2D Bl.2 ac iau	Egni
180	Lluniadu 2D Bl.3 a 4	Egni
181	Lluniadu 2D Bl.5 a 6	Egni
182	Lluniadu 2D Bl.7, 8 a 9	Egni
183	Lluniadu 2D Bl.10 a dan 19 oed	Egni
184	Lluniadu 2D Bl. 6 ac iau A.D.Y. Cymedrol	Egni
185	Lluniadu 2D Bl.7, 8 a 9 A.D.Y. Cymedrol	Agored
186	Lluniadu 2D Bl.10 a dan 25 oed A.D.Y. Cymedrol	Agored
187	Lluniadu 2D Bl.6 ac iau A.D.Y. Dwys	Egni

188	Lluniadu 2D Bl.7, 8 a 9 A.D.Y. Dwys	Agored
189	Lluniadu 2D Bl. 10 a dan 25 oed A.D.Y. Dwys	Agored

Gwaith Creadigol 2D

Cyflwyno unrhyw waith 2D gan ddefnyddio un neu gyfuniad o'r cyfryngau yma:
Mosaig, Gludlun (*Collage*), Teils, Pren, Plastig neu Metal i fesur dim mwy na 760mm x 560mm

190	Creadigol 2D Bl.2 ac iau	Egni
191	Creadigol 2D Bl.3 a 4	Egni
192	Creadigol 2D Bl.5 a 6	Egni
193	Creadigol 2D Bl.6 ac iau (grŵp)	Egni
194	Creadigol 2D Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
195	Creadigol 2D Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored
196	Creadigol 2D Bl.6 ac iau A.D.Y. Cymedrol (unigol)	Egni
197	Creadigol 2D Bl.6 ac iau A.D.Y. Cymedrol (grŵp)	Egni
198	Creadigol 2D Bl.7, 8 a 9 A.D.Y. Cymedrol (unigol neu grŵp)	Agored
199	Creadigol 2D Bl.10 a dan 25 oed A.D.Y. Cymedrol (unigol neu grŵp)	Agored
200	Creadigol 2D Bl.6 ac iau A.D.Y. Dwys (unigol)	Egni
201	Creadigol 2D Bl.6 ac iau A.D.Y. Dwys (grŵp)	Egni
202	Creadigol 2D Bl.7, 8 a 9 A.D.Y. Dwys (unigol neu grŵp)	Agored
203	Creadigol 2D Bl.10 a dan 25 oed A.D.Y. Dwys (unigol neu grŵp)	Agored

Graffeg Cyfrifiadurol

Gwaith gwreiddiol wedi ei greu ar unrhyw ddyfais ddigidol i fesur dim mwy na A4.

204	Graffeg Cyfrifiadurol Bl.2 ac iau	Egni
205	Graffeg Cyfrifiadurol Bl.3 a 4	Egni
206	Graffeg Cyfrifiadurol Bl.5 a 6	Egni
207	Graffeg Cyfrifiadurol Bl.7, 8 a 9	Agored

208 **Graffeg Cyfrifiadurol Bl.10 a dan 19 oed** Agored

Ffotograff Wedi'i Addasu

Addasu ffotograff eich hun i greu delwedd ddigidol newydd. Gellir defnyddio sganiwr ac unrhyw feddalwedd i olygu a chreu un darn o waith gorffenedig i fesur tua A4 (e.e. 10"x8" neu 12"x10"). Rhaid cynnwys y ffotograff gwreiddiol gyda'r gwaith.

209 **Ffotograffiaeth a Graffeg Cyfrifiadurol Bl.6 ac iau** Egni

210 **Ffotograffiaeth a Graffeg Cyfrifiadurol Bl.7, 8 a 9** Agored

211 **Ffotograffiaeth a Graffeg Cyfrifiadurol Bl.10 a dan 19 oed** Agored

Ffotograffiaeth : Llun Du a Gwyn

Un llun ffotograff du a gwyn neu fonocrom i fesur tua A4 (e.e. 10"x8" neu 12"x10"). Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio ar gerdyn du. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth. Ni chaniateir papur llungopio.

212 **Ffotograffiaeth: Du a Gwyn Bl.2 ac iau** Egni

213 **Ffotograffiaeth: Du a Gwyn Bl.3 a 4** Egni

214 **Ffotograffiaeth: Du a Gwyn Bl.5 a 6** Egni

215 **Ffotograffiaeth: Du a Gwyn Bl.7, 8 a 9** Agored

216 **Ffotograffiaeth: Du a Gwyn Bl.10 a dan 19 oed** Agored

Ffotograffiaeth : Llun Lliw

Un llun ffotograff lliw i fesur tua A4 (e.e. 10"x8" neu 12"x10"). Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio ar gerdyn du. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth. Ni chaniateir papur llungopio.

217 **Ffotograffiaeth: Lliw Bl.2 ac iau** Egni

218 **Ffotograffiaeth: Lliw Bl.3 a 4** Egni

219 **Ffotograffiaeth: Lliw Bl.5 a 6** Egni

220 **Ffotograffiaeth: Lliw Bl.7, 8 a 9** Agored

221 **Ffotograffiaeth: Lliw Bl.10 a dan 19 oed** Agored

Ffotograffiaeth : Cyfres o Luniau Du a Gwyn

Cyfres o 4 ffotograff du a gwyn neu fonocrom. Pob llun i fesur tua A5 (e.e. 7"x5"). Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio ar gerdyn du. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth. Ni chaniateir papur llungopio.

222 **Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.2 ac iau** Egni

223	Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.3 a 4	Egni
224	Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.5 a 6	Egni
225	Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.7, 8 a 9	Agored
226	Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.10 a dan 19 oed	Agored

Ffotograffiaeth : Cyfres o Luniau Lliw

Cyfres o 4 ffotograff lliw. Pob llun i fesur tua A5 (e.e. 7"x5").
Dylid cyflwyno pob eitem wedi'i fowntio gerdyn du. Rhaid cyflwyno pob llun ar bapur safonol ffotograffiaeth.
Ni chaniateir papur llungopio.

227	Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.2 ac iau	Egni
228	Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.3 a 4	Egni
229	Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.5 a 6	Egni
230	Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.7, 8 a 9	Agored
231	Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.10 a dan 19 oed	Agored

Argraffu

Argraffu ar unrhyw ddeunydd gan ddefnyddio un neu gyfuniad o gyfryngau
e.e. Leino, Pren, Plastig, Papur, Ffabrig neu Fetel i fesur dim mwy na 760mm x 560mm

232	Argraffu Bl.2 ac iau	Egni
233	Argraffu Bl.3 a 4	Egni
234	Argraffu Bl.5 a 6	Egni
235	Argraffu Bl.6 ac iau (grŵp)	Egni
236	Argraffu Bl.7, 8 a 9	Agored
237	Argraffu Bl.10 a dan 19 oed	Agored

Tecstilau Creadigol

Addurno ffabrig 2D neu 3D gan ddefnyddio unrhyw dechneg neu gyfuniad o dechnegau megis: Paentio, Print, Pwyth, Clymu a Llifo, Batic, Argraffu Bloc neu Ddefnyddio Cyfrifiadur, i fesur dim mwy na 750mm x 750mm x 750mm

238	Tecstilau Creadigol Bl.2 ac iau	Egni
239	Tecstilau Creadigol Bl.3 a 4	Egni
240	Tecstilau Creadigol Bl.5 a 6	Egni

241	Tecstilau Creadigol Bl.6 ac iau (grŵp)	Egni
242	Tecstilau Creadigol Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
243	Tecstilau Creadigol Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Creu Tecstilau

Creu gwaith 2D neu 3D sy'n defnyddio deunyddiau a thechnegau megis: Gwau â Llaw, Crosio, creu ffabric, Gwaith ffeltio neu Wehyddu i fesur dim mwy na 750mm x 750mm x 750mm.

244	Creu Tecstilau Bl.2 ac iau	Egni
245	Creu Tecstilau Bl.3 a 4	Egni
246	Creu Tecstilau Bl.5 a 6	Egni
247	Creu Tecstilau Bl.6 ac iau (grŵp)	Egni
248	Creu Tecstilau Bl.7, 8 a 9	Agored
249	Creu Tecstilau Bl.10 a dan 19 oed	Agored

Ffasiwn

Creu eitem o'r newydd i'w wisgo gan ddefnyddio unrhyw ddeunyddiau.

250	Ffasiwn Bl.6 ac iau	Egni
251	Ffasiwn Bl.6 ac iau (grŵp)	Egni
252	Ffasiwn Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
253	Ffasiwn Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Pypedau

Hyd at 3 pyped o unrhyw fath megis: bys, llaw neu ar liny. Dylai pyped ar liny gael ei gyflwyno mewn ffrâm bwrbasol. Ni ddylai dimensiwn y ffrâm i gynnal y pypedau fod yn fwy na 750mm x 750mm x 750mm.

254	Pyped Bl.2 ac iau	Egni
255	Pyped Bl.3 a 4	Egni
256	Pyped Bl.5 a 6	Egni
257	Pyped Bl.6 ac iau (grŵp)	Egni
258	Pyped Bl.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
259	Pyped Bl.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Gwaith 3D

Cyflwyno gwaith 3D mewn unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau i fesur dim hwy na 750mm x 750mm x 750mm a phwyso llai na 12kg.

260	Gwaith 3D BI.2 ac iau	Egni
261	Gwaith 3D BI.3 a 4	Egni
262	Gwaith 3D BI.5 a 6	Egni
263	Gwaith 3D BI.6 ac iau (grŵp)	Egni
264	Gwaith 3D BI.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
265	Gwaith 3D BI.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored
266	Gwaith 3D BI.6 ac iau A.D.Y. Cymedrol	Egni
267	Gwaith 3D BI.6 ac iau A.D.Y. Cymedrol (grŵp)	Egni
268	Gwaith 3D BI.7, 8 a 9 A.D.Y. Cymedrol (unigol neu grŵp)	Agored
269	Gwaith 3D BI.10 a dan 25 oed A.D.Y. Cymedrol (unigol neu grŵp)	Agored
270	Gwaith 3D BI.6 ac iau A.D.Y. Dwys (unigol)	Egni
271	Gwaith 3D BI.6 ac iau A.D.Y. Dwys (grŵp)	Egni
272	Gwaith 3D BI.7, 8 a 9 A.D.Y. Dwys (unigol neu grŵp)	Agored
273	Gwaith 3D BI.10 a dan 25 oed A.D.Y. Dwys (unigol neu grŵp)	Agored

Uwchgylchu

Uwchgylchu unrhyw wrthrych/au i greu darn newydd.
Rhaid cynnwys ffotograff(au) o'r gwrthrych(au) gwreiddiol fel tystiolaeth o'r camau a gymerwyd.
Y gwaith gorffenedig i fesur dim hwy na 750mm x 750mm x750mm.

274	Uwchgylchu BI.2 ac iau	Egni
275	Uwchgylchu BI.3 a 4	Egni
276	Uwchgylchu BI.5 a 6	Egni
277	Uwchgylchu BI.6 ac iau (grŵp)	Egni
278	Uwchgylchu BI.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
279	Uwchgylchu BL.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Serameg

Rhaid sicrhau fod y clai wedi cael o leiaf un taniad bisged mewn odyn. Dylai'r gwaith ffitio i ffrâm neu focs 400mm x 400mm x 400mm.

280	Serameg BI.2 ac iau	Egni
281	Serameg BI.3 a 4	Egni
282	Serameg BI.5 a 6	Egni
283	Serameg BI.6 ac iau (grŵp)	Egni
284	Serameg BI.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
285	Serameg BI.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Gemwaith

Gemwaith gwreiddiol mewn unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau.

286	Gemwaith BI.2 ac iau	Egni
287	Gemwaith BI.3 a 4	Egni
288	Gemwaith BI.5 a 6	Egni
289	Gemwaith BI.6 ac iau (grŵp)	Egni
290	Gemwaith BI.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
291	Gemwaith BI.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Dylunio a Thechnoleg

Cyflwyno gwaith Dylunio a Thechnoleg i fesur dim mwy na 750mm x 750mm x 750mm a phwyso llai na 12kg. Rhaid cynnwys cyflwyniad cefndirol ysgrifenedig a thystiolaeth yn egluro'r camau wrth gyflwyno'r gwaith.

292	Dylunio a Thechnoleg BI.2 ac iau	Egni
293	Dylunio a Thechnoleg BI.3 a 4	Egni
294	Dylunio a Thechnoleg BI.5 a 6	Egni
295	Dylunio a Thechnoleg BI.6 ac iau (grŵp)	Egni
296	Dylunio a Thechnoleg BI.7, 8 a 9 (unigol neu grŵp)	Agored
297	Dylunio a Thechnoleg BI.10 a dan 19 oed (unigol neu grŵp)	Agored

Y Fedal Gelf, Dylunio a Thechnoleg Bl.10 a dan 19 oed

Dyfernir y Fedal i'r cystadleuydd sydd wedi cyflwyno'r gwaith mwyaf addawol o blith enillwyr cenedlaethol holl gynnyrch yr adran Bl.10 a dan 19 oed. Mae'r gystadlaethau hon, ar gyfer cystadlaethau unigol yn unig. Dyma rifau'r cystadlaethau sy'n gymwys ar gyfer y Fedal: 178, 183, 195, 208, 211 ,216, 221, 226, 231, 237, 243, 249, 253, 259, 265, 279, 285, 291 a 297.

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Celf

Mae Rheolau a Manylion Cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg ar dudalen 45. Mae rhyddid i unigolion/grwpiau ddehongli'r thema yn eu ffordd eu hunain, boed yn llythren-nol neu'n haniaethol. Nid oes rhaid i waith yn y categorïau oedran uwchradd a hŷn fod yn seiliedig ar y thema. Ceir rhagor o syniadau i ddehongli'r thema yma.

Beirniaid

Jane Barraclough, Hannah Doyle, Mari Eluned, Hannah Evans, Richard Llwyd Edwards, Teresa Jenellen, Christine Mills Eleri Mills, Anwen Roberts

Ysgoloriaeth Artist Ifanc Bl.10 a dan 25 oed

Cyflwyno gwaith Celf, Dylunio neu Dechnoleg mewn unrhyw gyfrwng neu gasgliad o gyfryngau. Rhaid cynnwys detholiad o'r portffolio neu grynodedb ysgrifenedig yn y Gymraeg i gydfynd a'r gwaith.

Wrth gofrestru i gystadlu rhaid cyflwyno:

- Hyd at 6 llun ffotograff o'r gwaith NEU fideo hyd at 1 munud yn cyflwyno'r gwaith.
- Yn ogystal â 250 o eiriau yn esbonio'r syniadau/prosesau NEU ddetholiad hyd at 4 tudalen o lyfr braslunio.

Defnyddir yr ysgoloriaeth gwerth £2000 i alluogi'r enillydd i ddilyn cwrs mewn ysgol neu goleg celf cydnabyddedig neu yn fuddsoddiad er mwyn i'r artist buddugol ddilyn gyrfa yn y maes hwnnw.

Rheolau a Manylion Ysgoloriaeth Gelf, Dylunio a Thechnoleg

Drwy garedigrwydd Dr Dewi Davies a'i deulu. Cyflwynir yr Ysgoloriaeth gwerth £2000 drwy garedigrwydd Dr Dewi Davies a'i deulu, am y casgliad o waith mwyaf addawol gan unigolyn rhwng Bl. 10 a dan 25 oed. Rhaid i holl waith portffolio fod yn Gymraeg neu gynnwys crynodeb ysgrifenedig yn y Gymraeg.

Diwrnod beirniadu'r Ysgoloriaeth Gelf, Dylunio a Thechnoleg

Cynhelir diwrnod i ddewis enillydd yr Ysgoloriaeth ym mis Mai 2024 lle gwahoddir y sawl sydd wedi cofrestru cyn y dyddiad cau i gyflwyno gwaith gerbron panel o feirniaid. Yn ystod y diwrnod, ceir cyfle i drafod sbardun y gwaith gyda'r panel o feirniad arbenigol. Bydd gwaith yr enillydd yn cael ei arddangos ym Mhabell Celf, Dylunio a Thechnoleg ar Faes Eisteddfod yr Urdd.

ADRAN CYFANSODDI

Cyfansoddi Cerddoriaeth

Dyddiad Cau: Mawrth 1, 2024

299	Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.6 ac iau	Cyfansoddiad lleisiol a/neu offerynnol Caniateir cywaith Beirniad: Einir Haf Huws Dylid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i'r gystadleuaeth hon i gystadleuaeth 303.
300	Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.7, 8 a 9	Cyfansoddi cân â chyfeiliant ar eiriau Cymraeg o ddewis y cystadleuydd Caniateir gwaith unigol neu gywaith. Beirniad: Rhydian Meilir Pughe Dylid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i'r gystadleuaeth hon i gystadleuaeth 303.
301	Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.10 ac 11	Cyfansoddi darn o gerddoriaeth (mewn unrhyw gyfrwng) gyda chyswllt Cymreig Heb fod yn hwy na 5 munud. Beirniad: I'w gadarnhau Dylid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i'r gystadleuaeth hon i gystadleuaeth 302 na 303.
302	Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.12 a 13	Cyfansoddiad lleisiol ar eiriau Cymraeg o ddewis y cystadleuydd Heb fod yn hwy na 5 munud. Beirniad: Richard Vaughan Dylid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i'r gystadleuaeth hon i gystadleuaeth 302 na 303.
303	Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.10 a dan 19 oed	Cyfansoddi darn o gerddoriaeth ar gyfer unrhyw gyfuniad o offerynnau Heb fod yn hwy na 5 munud. Beirniad: Osian Huw Williams Dylid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i'r gystadleuaeth hon i gystadlaethau 300, 301 na 303.

304 Y Fedal Gyfansoddi dan 25 oed

Cyfansoddi naill ai:

- a. Cylch o ganeuon ar eiriau Cymraeg o ddewis y cystadleuydd
- b. Rhangan neu gytgan ar eiriau Cymraeg o ddewis y cystadleuydd
- c. Cyfansoddiad i un neu ddau offeryn
- ch. Cyfansoddiad i ensemble offerynnol

Beirniaid: Gareth Glyn a Guto Pryderi Puw

Dylid cyflwyno copi o'r gerddoriaeth wedi ei chofnodi'n addas fel ffeil PDF, MIDI neu MP3. Gweler rheolau Cyfansoddi a Chreu am fanylion anfon y gwaith terfynol.

Ni ddylid cyflwyno'r un gwaith a anfonir i gystadlaethau 298-302. (Gweler rheol 3 Cyfansoddi a Chreu.)

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cyfansoddi Cerddoriaeth

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Mae'r Rheolau Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Cyfansoddi Cerdd Dant

Dyddiad Cau: Mawrth 1, 2024

305 Cyfansoddi Cainc dan 25 oed

Cyfansoddi Cainc ar unrhyw fesur ac unrhyw naws

Beirniad: Llio Penri

306 Cyfansoddi Gosodiad dan 25 oed

Cyfansoddi gosodiad i unrhyw unawd yn Rhestr Testunau Eisteddfod yr Urdd

Beirniad: Llio Penri

Rheolau a Manylion Cystadlaethau Cyfansoddi Cerdd Dant

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Mae'r Rheolau Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu hefyd yn berthnasol i'r adran hon.

Cyfieithu

Dyddiad Cau: Mawrth 1, 2024

307 Cyfieithu 19–25 oed

Cyfieithu darn o 300 o eiriau o'r Saesneg i'r Gymraeg

Bydd angen i'r ymgeiswyr gyfieithu darn penodol o ryw 300 o eiriau o'r Saesneg i'r Gymraeg. Caiff y darn ac enw'r beirniad eu cyhoeddi ar ein gwefan ddechrau mis Ionawr 2024.

Cynhelir y gystadleuaeth hon mewn cydweithrediad â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Rheolau a Manylion Cystadleuaeth Cyfieithu

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Mae'r Rheolau Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu hefyd yn berthnasol i'r adran hon.



Dylunio Llyfr Stori-a-llun

Dyddiad Cau: Mawrth 1, 2024

308 Dylunio Llyfr Stori-a-llun ar gyfer plant dan 7 oed

Agored i gystadlwyr 18–25 oed

Y dasg yw creu llyfr ffug yn cynnwys brasluniau pensil ar gyfer llyfr stori-a-llun i blant, o glawr i glawr, yn cynnwys y testun neu gyfeiriad at y llinyn storiol, a gwaith celf gorffenedig ar gyfer o leiaf pedair tudalen ddwbl (neu o leiaf tair tudalen ddwbl a chlawr blaen). Dylai'r gwaith ddangos gallu'r ymgeisydd i briodi testun â darluniau, a dealltwriaeth o naratif, rhediad y stori a'r cymeriadu.

Darperir testun (dan 500 gair) i'w ddarlunio, ar gael drwy ebostio cllc.plant@llyfrau.cymru.

Rheolau a Manylion Cystadleuaeth Darlunio Llyfr Stori-a-llun

- 1 Mae'r Rheolau Cyffredinol ym mlaen y Rhestr Testunau hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 2 Mae'r Rheolau Cystadlaethau Cyfansoddi a Chreu hefyd yn berthnasol i'r adran hon.
- 3 Fformat

Hyd: 32 tudalen gan gynnwys dalenni clawr (end-papers) blaen a chefn, tudalen deitl a thudalen hawlfraint.

Maint: Ni ddylai'r llyfr gorffenedig fod yn fwy na 300mm o led nac uchder.
- 4 Gall y testun fod mewn llawysgrifen ddealladwy neu wedi ei osod mewn teip.
- 5 Gwaith Celf Gorffenedig

Maint: Gall y gwaith celf fod yr un maint â thudalen y llyfr gorffenedig, neu hyd at 30% yn fwy. Dylid cynnwys marciau cornel i ddynodi trim (h.y. ymyl y dudalen gorffenedig).

Estyn darlun (Bleed): Gadael 5mm yn ychwanegol (ar ôl lleihau) y tu allan i'r trim os ydy'r gwaith yn dod at ymyl y dudalen wedi ei hargraffu. Awrgymir osgoi rhoi manylion pwysig o fewn 5mm at ymyl y dudalen neu lle mae'r darluniau'n croesi'r meingefn.

Dull: Gellir defnyddio unrhyw ddull darlunio, ond awgrymir osgoi paent llewyschol (luminous), collage bregus neu unrhyw gyfrwng na fydd yn

- atgynhyrchu'n dda.
- Teip:** Dylai unrhyw deip fod yn ddu ac ar orddalennau (overlay) tryloyw, nid yn syth ar y gwaith celf.
- 6 Dylai ymgeiswyr ystyried y gall gwaith bregus gael ei niweidio. Ni fydd yr Urdd yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golledion na niwed i waith ymgeiswyr
- Sut i Wneud Cais**
 - 1 Dylid uwchlwytho ceisiadau ar ffurf electronig i'r [Porth](#) wrth gofrestru i gystadlu.
 - 2 Gall ymgeiswyr gyflwyno mwy nag un cais, ond mewn portfolios ar wahân.
 - 3 Bydd angen cyflwyno'r ceisiadau digidol ar ffurf dogfen 32 tudalen a'r rheiny'n wynebu ei gilydd (facing pages) ar ffurf PDF gan gynnwys testun a delweddau yn eu lleoliad, gyda PDF ar gyfer y clawr blaen a chefn.
 - 4 Testun ar gael drwy ebostio cllc.plant@llyfrau.cymru
 - 5 **Gwobr** - Cyflwynir y gwaith buddugol gerbron y Cwllwm Cyhoeddwy i'w ystyried ar gyfer cynnig cyfnod o brofiad gwaith i'r enillydd, yn ogystal â chynnwys y gwaith buddugol yn rhan o'r rhaglen gyhoeddi. Bydd gwaith enillwyr y gystadleuaeth yn cael ei arddangos yn y Babell Celf, Dylunio a Thechnoleg ar Faes Eisteddfod yr Urdd.

